

ECO'R WYDDFA

Rhif 242

CHWEFROR 1998

Pris 30c

Iawndal am dorriadau trydan

Mae sawl etholwr, ac eraill, a gollodd gyflenwad trydan am oriau maith dros y Nadolig wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r posibilrwydd o gael iawndal. A gaf fi drwy eich colofnau, egluro'r sefyllfa fel ei esboniwyd i mi gan Gadeirydd MANWEB mewn cyfarfod yng Nghaernarfon yr wythnos ddiwethaf.

Tra nad yw MANWEB yn fodlon talu iawndal fel y cyfryw, maent yn barod i ystyried 'taliad ewyllys da' i'r rhai gollodd eu cyflenwad trydan am 24 awr neu fwy yn ystod cyfnod y

Nadolig ac yr ystyrir pob achos yn ôl ei haeddiant.

Yr wyf yn cymhell pob etholwr, ac eraill, sydd wedi cael y trafferthion yma i ysgrifennu at MANWEB yn MANWEB House, Kingsfield Court, Chester Business Park, Caer CH4 9RF neu i'r swyddfa leol, yn rhoi holl fanylion dyddiadau ac amser pan fethodd y cyflenwad trydan a phan ddychwelodd. Os y bu colledion ariannol penodol dylid nodi'r rhain — er deallaf y bydd MANWEB yn ystyried gwneud 'taliad ewyllys da' ar sail anghyfleustra, hyd yn oed os na fu colled ariannol.

Dylai'r rhai sydd â pholisi yswiriant wneud cais o dan y polisïau hynny yn y lle cyntaf, ond efallai y dylent dynnu sylw MANWEB i unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o hynny os y bu'n rhaid talu rhan gyntaf o'r cyfryw bolisi yswiriant. Dylai ffermwyr ac eraill sydd wedi cael colledion sylweddol nodi'n fanwl faint eu colled, gan esbonio a oedd polisi yswiriant yn bodoli ai peidio.

Mae MANWEB wedi cadarnhau eu bod yn ystyried pa weri y dylid eu dysgu o'r trafferthion diweddar a gobeithiaf yn fawr y bydd hyn yn arwain at fuddsoddiad ychwanegol i wella'r sustem cyflenwad trydan yng Ngogledd Cymru, cyflogi mwy o weithwyr lleol a gwella'r gyfundrefn cysylltiadau i roi sylw prydlon i ymholiadau a chwynion cwsmeriaid.

Yn olaf, a gaf fi ddatgan eto y deyrnged yr wyf i ac eraill wedi eu talu i weithwyr MANWEB a gweithwyr y gwasanaethau brys fu'n gweithio mewn tywydd garw drwy gyfnod anodd.

Yn gywir iawn,

DAFYDD WIGLEY, A.S.

Pen-blwydd hapus a diolch



Mae *Eco'r Wyddfa*, fel holl bapurau bro Cymru, yn ddyledus i griw o bobl ffyddlon sy'n cyfrannu'n gyson mewn amrwyiol ffyrdd at ei barhad a'i lwyddiant. Ond fel pawb arall sydd wedi bod â rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r papur dros y ddwy flynedd ar hugain diwethaf mae'r golygyddion presennol yn ymwybodol o gyfraniad gwerthfawr gweithwyr Gwasg Gwynedd sydd wedi argraffu'r papur ers y rhifyn cyntaf.

Mae'r *Eco* felly'n falch o longyfarch Gwasg Gwynedd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 25 oed yn ddiweddar. Er bod y Wasg wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ers 1979, mae ei gwreiddiau yn ddwfn ym mro'r *Eco*. Sefydlwyd y Wasg yn 1972 yn hen Ysgol Nant Peris; mae gan y ddau berchennog gysylltiadau agos â'r fro, ac mae cymaint â hanner y gweithlu presennol yn byw ym mhentrefi'r fro. Bu'n gyflogwr pwysig yn lleol drwy'r blynyddoedd — hyd yn oed os teimlai un dyn bach reidrwydd i gydymdeimlo ag un o'r hogia wedi deall ei fod yn gweithio yng nghanol llyfrau efo'r sylw, 'Wel, mae'n job yn tydi'!

Sefydlwyd Gwasg Gwynedd gan Alwyn Elis a Gerallt Lloyd Owen. Nid oedd gan yr un o'r ddau brofiad o fyd busnes pan aethant ati i sefydlu'r Wasg. Cyn hynny bu Gerallt yn athro yn Nhrawsfynydd a Phenybont ar Ogwr, ac roedd Alwyn yn dilyn cwrs gradd Mathemateg yn Aberystwyth. Rhoes Gerallt y gorau

i'w swydd er mwyn cyhoeddi'r comic *Hebog* yn fisol. Wedi gorffen yn y coleg roedd Alwyn yn awyddus i sefydlu busnes argraffu gan iddo fod yn ymhel â'r maes hwnnw tra'n y coleg. Nid oeddent yn adnabod ei gilydd o gwbl, ond roedd Dafydd Iwan yn adnabod y ddau ac yn gwybod am eu bwriadau, a fo awgrymodd y dylai Gerallt alw heibio cartref Alwyn yn Nant Peris ym mis Ebrill 1972 i drafod y syniad o gychwyn busnes argraffu. Roedd Gerallt eisoes wedi archebu peiriant argraffu bychan ar gyfer y comic, ond wedi cytuno i fentro ar y cyd aed ati i ganslo'r peiriant hwnnw ac archebu un mwy gan yr un cwmni am £2,690 ac ar hwnnw yr argraffwyd rhifyn cyntaf yr *Eco*, yn Chwefror 1976.

Aed ati i chwilio am adeilad. Roedd cwmni Recordiau Sain yn chwilio am le yr un pryd ac ystyriwyd dod o hyd i le a fyddai'n gartref i'r ddau fusnes. Wedi hir chwilio cafwyd lle i'r Wasg ar ei phen ei hun . . . yn union dros y ffordd i gartref Alwyn yn Nant Peris, yn ei hen ysgol a gauwyd yn 1961. Llogwyd rhan o'r adeilad oddi wrth Gyngor Sir Gwynedd oedd ei hunan yn ei logi oddi wrth gapel Rehoboth.

Cyrhaeddodd y peiriant argraffu cyntaf hwnnw ym mis Hydref 1972 a daeth dyn o'r cwmni i ddangos sut i'w drin, ddeuddydd cyn priodas Gerallt ac Alwena. Alwyn oedd yn gyfrifol am yr argraffu a Gerallt a wnâi'r dylunio a'r cysodi bryd hynny.

Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd y Wasg oedd llyfr Selwyn Griffith, *Dewch i Adrodd*. Mae'r llyfr ar gael o hyd gyda bron i ddwy fil o gopïau wedi eu gwerthu erbyn hyn. Un o'r jobsys cynta oedd argraffu taflen o fargeinion y Co-op yn Neiniolen. Roedd argraffu taflen yn cyflwyno darpar ymgeisydd seneddol Plaid Cymru — rhyw Dafydd Wigley o bellafoedd Merthyr — ymysg y tasgau cyntaf hefyd. Bu raid i'r Wasg wynebu peth beirniadaeth yn y cyfnod hwnnw o du rhai oedd yn mynnu mai Plaid Cymru oedd y tu cefn i'r fenter er ei budd gwleidyddol ei hunan. Roedd rhai'n barod i feirniadu Cyngor Sir Gwynedd hefyd am osod rhan o'r ysgol am rent isel i'r Wasg. Y gwir amdani oedd bod y Wasg yn talu mwy i'r Cyngor am ran o'r adeilad nag oedd y Cyngor yn ei dalu i'r perchnogion am yr adeilad cyfan.

Y person cyntaf i'w chyflogi oedd Brenda Jones o Fetws Garmon (Bryn Gloch wedyn) yng Ngorffennaf 1976. Eleni bydd dau o'r gweithwyr presennol, Dylan Jones o Lanberis a'r arlunydd Islwyn Williams o Benisa'rwaun, wedi bod gyda'r wasg am ugain mlynedd. Mae mwyafrif aelodau staff y Wasg dros y blynyddoedd wedi dod o fro'r *Eco*.

Ar hyn o bryd mae wyth yn gweithio yno, a phedwar ohonynt yn byw yn y fro: Geraint Parry o Fethel sy'n argraffu hefo Dylan; Islwyn Williams yw'r dylunydd; Aled Jones o Garmel sy'n gyfrifol am rwymo'r llyfrau a William Humphreys o Fethel yn cysodi. Alwyn, Gerallt ac Alwena yw'r tri arall wrth gwrs.

Mae busnes y Wasg wedi ei rannu yn weddol gyfartal rhwng y gwaith argraffu a'r gwaith cyhoeddi. Erbyn hyn mae dros 200 o deitlau wedi eu cyhoeddi a hynny'n golygu bod mwy na chwarter miliwn o lyfrau wedi eu gwerthu yn ystod y cyfnod. Y ddwy gyfrol a werthodd orau yw atgofion John Ogwen, *Hogyn o Sling*; a Dai Jones, *Fi Dai Sy' 'Ma*. Mae'r Wasg wedi ennill pump o wobrau cenedlaethol, yn cynnwys pedair am Lyfr Gorau'r Flwyddyn. Cyfrolau'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen ei hun oedd dwy o'r rheiny, sef *Cerddi'r Cywilydd* a *Cilmeri a Cherddi Eraill*. Dwy o gyfresi poblogaidd y Wasg yw'r 17 cyfrol yng 'Nghyfres y Cewri' a'r wyth a gyhoeddwyd hyd yma yng nghyfres 'Pigion Talwrn y Beirdd'.

Wrth eu longyfarch ar ddathlu'r pen-blwydd arbennig hwn, dymunwn ddiolch i Alwyn a Gerallt a phawb yng Ngwasg Gwynedd am eu cymorth bob amser. Oni bai am garedigrwydd ac aml gymwynas . . . a hir amynedd pobl y Wasg mae'n amheus a fyddai'r *Eco* wedi mynd i'w wely, heb sôn am ddod ohono ac atoch chi'r darllenwyr, ambell fis.

ECO'R WYDDFA

Rhif 242
CHWEFROR 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 26

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, CHWEFROR 16

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAWRTH	CHWEFROR 26	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 26	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 30	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 28	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 29	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556

DEINIOLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol (01286) 871174

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

CLWYDI PREN

Annwyl Olygydd,

Yr wyf yn casglu gwybodaeth am wahanol fathau o glwydi pren ar gyfer uned Economi Wledig Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Defnyddir llai o glwydi pren yn awr wrth i fynedfeydd gael eu lledu ar gyfer peiriannau amaethyddol modern, a gosod clwydi haearn. Mae'r prosiect yn cynnwys nodi gwahanol batrymau, gwneuthurwyr, y coedydd a ddefnyddiwyd a'r lleoliad.

Ceir amrywiaeth mawr yn nifer y patrymau sydd yn bodoli yn y gwahanol siroedd. Er enghraifft, nodweddir clwyd draddodiadol o sir Faesyfed gan y dull y mae'r cleddau yn croesi ar ben a gwaelod y glwyd tra bod i glwyd draddodiadol o sir Gaerfyrddin un gledd a dwy neu fwy o asennau llorwedd.

Byddwn yn falch o dderbyn unrhyw fanylion oddi wrth eich darllenwyr am batrymau clwydi pren, gan pwy y'u gwnaethpwyd a'u lleoliad. Bydd y wybodaeth ar gael yn y dyfodol ar gyfer unrhyw fudiadau neu unigolion a fydd am ddefnyddio clwydi pren.

Mae'n bosig cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod.

Yr eiddoch yn gywir,

GARETH BEECH

Economi Wledig

Adran Bywyd Gwerin

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan

Caerdydd CF5 6XB

Sefydlu Cymdeithas i Sgwrsio gyda Dysgwyr

Ydych chi'n hoff o gymdeithasu a siarad Cymraeg? Oes gennych chi ddiddordeb mewn sgwrsio a chymdeithasu gyda dysgwyr Cymraeg? Buaswn yn falch iawn o glywed gennych. Mae'r mudiad hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn awyddus i sefydlu cangen i'r dysgwyr yn Nyffryn Peris a'r cyffiniau a byddai eich cyfraniad yn dderbyniol iawn i alluogi'r dysgwyr i ddod yn fwy rhugl y tu allan i ddosbarthiadau Cymraeg. Am ragor o fanylion cysylltwch ag:


ELFYN WILLIAMS

Swyddog Cyswilt CYD Gwynedd


9 Rhes Bryn Hyfryd

Carmel, Caernarfon LL54 7AE

(01286) 880962



Esiampl o Sir Faesyfed



Esiampl o Sir Gaerfyrddin

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU MÔN 1999

Gwobrau i'r Eisteddfod

Bu'r is-bwyllgorau sy'n ymwneud â dewis testunau i gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol Môn pan fydd yn ymweld â'r ynys yn 1999, wrthi'n brys dros y tri neu bedwar mis diwethaf yn gwneud eu penderfyniadau. Erbyn hyn mae'r testunau yn eu lle ac yn barod i gael eu cyflwyno. Mae un dasg arall i'w chyflawni, sef dod o hyd i wobrau.

Eisoes addawodd sawl unigolyn neu gymdeithas roi gwobr a byddwn yn cysylltu â hwy yn fuan. Fodd bynnag, da o beth fyddai rhoi cynnig i eraill sydd yn byw y tu allan i ddalgylch yr Eisteddfod gael cyfrannu. Wedi'r cyfan mae Monwysion mewn rhannau eraill o'r wlad ond eto'n hynod o falch o nodi eu cysylltiad â'r ynys. Efallai fod

eraill yn cofio am eisteddfodau y gorffennol — 1957 a 1983 — yn Llangefni ac am gysylltu unwaith eto â'r brifwyl ym Môn.

Os hoffech gyfrannu trwy gyflwyno gwobr ariannol i'r Eisteddfod yna byddwn yn falch o glywed gennych yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar iawn. Dylid anfon gair ataf yn **Swyddfa'r Eisteddfod, 27 Stryd Fawr, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NA**, neu os ydych am sgwrs, yna croeso i chi gysylltu â mi ar (01248) 724999.

Diolch ichi am gynorthwyo'r Eisteddfod.

Yn gywir,

HYWEL WYN EDWARDS

Trefnydd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd **Rolls Royce**

ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 871833

Amgueddfa yn Apelio am Garej

Mae Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ger Caerdydd, yn awyddus i ddod o hyd i garej i'w hychwanegu at ei chasgliad o adeiladau hanesyddol. Mae'r Amgueddfa — a fydd yn dathlu ei hanner canmlwyddiant ym 1998 — yn enwog am achub adeiladau o bob rhan o Gymru a'u hailgodi yn ofalus yn Sain Ffagan er mwyn dangos sut olwg a oedd arnynt erstalwm.

Yn ogystal ag ail-leol bythynnod, ffermdai ac ysguboriau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Amgueddfa hefyd wedi symud adeiladau o ardaloedd diwydiannol Cymru — rhes o dai gweithwyr haearn o Ferthyr Tudful, er enghraifft, siop bob peth o Gwm Ogwr ac Institiwt y Gweithwyr o Oakdale yng Ngwent. Fel rhan o'i hymgyrch i gyflwyno darlun mwy cyflawn o fywyd yng Nghymru'r gorffennol mae'r Amgueddfa bellach yn chwilio am garej.

Daeth garejis yn fwyfwy cyffredin wedi'r 1920au wrth i fwy o bobl ddod yn berchnogion ceir. Erbyn y 1950au roedd garej ym mhob pentref, bron iawn — man lle y gellid prynu petrol a thrwsio teiars, ac yn wir ceir yn gyffredinol. Mae gan Amgueddfa Werin Cymru eisoes eitemau yn ei chasgliad — pypiau petrol ac arwyddion enamel yn hysbysebu petrol ac olew, er enghraifft — y gellid eu defnyddio i ddodrefnu garej o'r fath.

Wrth gwrs roedd y gwahanol fathau o garejis yn amrywio llawer o fan i fan, gan ddiybennu ar eu swyddogaeth. Yn un pegwn roedd y busnesau bychain iawn — cwt o bren neu sinc ac un pwmp petrol. Yn y pegwn arall wedyn dyna'r adeiladau deulawr crand a oedd yn cynnwys ystafelloedd i arddangos y ceir, gweithdai a swyddfeydd y tu ôl i'w ffasadau crand, a hanner dwsin o bympiau yn gweini petrol ac olew y tu allan iddynt. Mae'n debyg mai adeilad rhywle rhwng y ddau begwn hwn

fyddai'n gweddu orau i'r Amgueddfa.

Os oes gennych garej o'r fath, neu os y gwyddoch am un (a fyddai, mae'n debyg, yn wag bellach) ac os hoffech ei rhoi i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yna carai'r Amgueddfa glywed gennych.

Cysylltwch â Gerallt Nash ar Gaerdydd (01222) 573445; Sioned Hughes (01222) 573442; neu Siân Hughes (adran y wasg) Caerdydd (01222) 573485; neu anfonwch air at Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Mae'r Amgueddfa hefyd yn awyddus i ddod o hyd i ffitiadau a chelfi gosod a ddefnyddid mewn garejis eraill.

PARTI PENDALAR



Siôn Corn a'i gynorthwywyr yn rhannu anrhegion i ddisgyblion Pendalar.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Llywyddwyd cyfarfod mis Rhagfyr gan y Cadeirydd, Cynghorydd Emllyn Baylis. Wedi trafodaeth ar y goleuadau Nadolig sydd yn y Stryd Fawr, Llanberis, pasiwyd i gario ymlaen gyda'r fenter yn 1998, ac i fynd o amgylch y pentref yn ystod y flwyddyn i geisio cael noddwyr i gefnogi'r cynllun yn ariannol. Yn ystod y drafodaeth rhoddwyd awgrymiad ger bron y byddai'n dda o eth ehangu'r cynllun gan gychwyn y goleuadau o Fanc y Midland gan orffen ger siop Spar.

Rhoddwyd caniatâd i Mr Owain Davies, Tan y Bryn, Nantperis ailgychwyn Seindorf Arian Llanberis.

Nid oedd gwrthwynebiad i gais cynllunio i gael estyniad yn 5 Llainwen Isaf.

Pasiwyd yn unfrydol i gefnogi cais i gofrestru y tir o flaen Llainwen Isaf yn Grin Tref neu Bentref dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965.

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc drefnu llecyn addas yn y fynwent i gadw celfi a ddefnyddir pan fo angladd.

Gwahoddir ceisiadau am grant oddi wrth fudiadau oddi mewn i'r plwyf. Rhaid i bob cais fod yn llaw y Clerc erbyn 10 Chwefror 1998. **Ni ystyri'r ceisiadau ar ôl y dyddiad uchod.** Anfoner y ceisiadau i'r Clerc, 7 Bryn Moelyn, Llanrug LL55 4PH.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Ionawr 2 yng Ngwesty'r Victoria, estynnwyd croeso cynnes gan y Llywydd, Cledwyn Pritchard Jones, i'r aelod newydd, Bert Parry, gan ddymuno iddo hir a ffrwythlon gysylltiad â'r Clwb am flynyddoedd i ddod. Pleser oedd gweld Ralph Jones yn ei ôl yn y rhengoedd ac yn amlwg wedi cael gwellhad wedi'r anhwylder diweddar. Llongyfarchwyd J. Norman Davies hefyd ar ennill y gadair yn Eisteddfod Chwilog — un arall i'w hychwanegu at y nifer sydd ganddo yn barod yn ei feddiant. Llywydd y noson oedd Gwyn Hefin Jones, a gyflwynodd y siaradwr, John Emllyn Hughes, Deiniolen. Cafwyd sgwrs ddifyr ar hanes trychineb y Royal Charter ar greigiau nid nepel o

Foelfre ar 26 Tachwedd 1859, ac un arall o fewn cyd-destun ei brofiad fel plismon yn Llanerchymedd, pan gollwyd yr Hind Lea bron gan mlynedd i'r dyddiad yn ddiweddarach ac yn yr un lle. Soniodd am ddewrder dynion y Bad Achub y noson y galwyd ef allan ac am arweiniad y llywydd, yr anghymarol Dic Evans. Wedi trafodaeth ddiddan o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr a phawb a gymerodd ran gan Geraint Huws Roberts.

Bydd cyfarfod nesaf y Clwb nos Wener, Chwefror 6, pryd y ceir anerchiad gan Brython Jones, Caernarfon, gyda Iolo Llywelyn yn llywyddu. Rhwir manylion am y Cinio Gŵyl Ddewi, sydd i'w gynnal ar Fawrth 6, yn yr un cyfarfod.

IOLO HUWS-ROBERTS

Yn ôl traddodiad bu disgyblion chweched isaf Ysgol Brynrefail unwaith eto'n brysur yn trefnu parti Nadolig ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar. Ers dechrau mis Tachwedd bu nifer helaeth o'r disgyblion yn brysur yn casglu arian gan fusnesau lleol ac ar ddyddiau Sadwrn oer bu criw hefyd yn casglu y tu allan i siopau Safeways a Pioneer yng Nghaernarfon.

Cynhaliwyd y parti ddydd Mawrth, Rhagfyr 16eg. Fel pob parti dros y blynyddoedd cychwynnodd y parti gyda'r plant yn cael eu diddanu, a'r tro yma Dewi 'Pws' Morris ac Iestyn Garlick fu'n canu gyda'r plant cyn cael bwyd. Hoffem hefyd ddiolch i'r Adran Arlwygo am roi eu cymorth i ni efo'r coginio. Ac, wrth gwrs, ar ddiwedd y parti cafwyd ymweliad gan Siôn Corn i ddosbarthu anrhegion i'r plant.

Roedd y parti unwaith eto'n llwyddiant ysgubol ond mae'n holl bwysig cael y cyfle i ddiolch i Mr Harri Jones am fod yn asgwrn cefn i ni wrth drefnu. Diolch hefyd iddo am yr holl hwyl wrth wneud y siopa. Pwy fuasai'n meddwl y byddai cymaint o hwyl i'w gael wrth siopa?!

LLINOS WILLIAMS

Cefnogwch ein Hysbysebwr

COED TÂN AR WERTH

★ £1 y bag ★

WEDI EI DDANFON
O FEWN DALGYLCH
ECO'R WYDDFA
(lleiafswm 5 bag)

★ ★ ★

GWYNANT PIERCE
UNED 1, BRYN AFON
LLANRUG

Ffôn: 650349 (NOS)
NEU 0589 899901



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

O SIAMBAR SELWYN

Be ga' i ddeud d'udwch? Mi fydda i'n cael y problem hon yn aml wrth edrach drwy ffenast y siambar 'ma.

Ydi, mae'n ddechra blwyddyn arall, ac mi rydwi inna newydd ddychwelyd o fy mhererindod flynyddol i Gaeredin i groesawu 1998. Tri bws o Wynedd yn llenwi gwesty'r Mount Royal ar Stryd y Dywysoges. Er mwyn diogelwch rhaid oedd cael tocyn arbennig i gerdded Stryd y Dywysoges eleni, ac fe ganiatawyd mynediad i 250,000. Ero roedd yno dros 500,000 o fewn ffiniau'r ddinas nodedig hon. Faint fydd yno i groesawu'r mileniwm ys gwn i?

Na, doedd yna'r un ffenast wedi'i thorri ar Stryd y Dywysoges. Dim ond 17 a gymerwyd i'r ddalfa, a bu farw un bachgen ifanc o drawiad ar y galon. Dwi'n credu fod y tân gwyllt a sbarciodd o'r castell yn arbennig eleni, a Chymraeg oedd iaith y Mount Royal. Oedd, mi roedd 'na rai wedi dod yr holl ffordd i Gaeredin o Ganada ac o Awstralia, ond roedd 'na fwy wedi dod yno o Gymru, ac mae amryw ohonom ni wedi sicrhau lle am y ddwy flynedd nesaf hefyd — os byw ac iach.

Ydi, mae os byw ac iach yn golygu rhywbeth mwy i mi bellach na dywediad ystrydebol. Cyn i'r pumed mis o 1998 fynd heibio mi fydda inna wedi cyrraedd oed yr addewid.

Dwi newydd lenwi tudalennau'r dyddiadur am y flwyddyn, a sylwi i mi addo mynd i wahanol lefydd i wneud y pethau arferol. Mynd i sawl steddffod ac i annerch sawl cymdeithas, ymweld ag ambell ysgol ac, wrth gwrs, *crwydro*. Ydw, mi rydwi am ddal i fynd tra medrai. Mynd yn ôl i ambell le lle bûm i yno droeon o'r blaen, a mentro i ambell le newydd hefyd.

Fûm i erioed yn Greenland, ond cyn diwedd y flwyddyn dwi'n gobeithio cael profi a oes 'na ryw faint o wyrddni yn y wlad? Mae'r holl luniau a welais

o'r wlad yn dangos ei bod wedi'i chladdu o dan gnwd o eira. A roed enw mwy camarweiniol ar unrhyw wlad erioed?

Pan oeddwn i yng Ngwlad yr Iâ ychydig flynyddoedd yn ôl roedd trip diwrnod oddi yno i Greenland yn costio bron £300. A dyna i chi wlad arall sy a'i henw yn gamarweiniol. Does 'na ddim cymaint â hynny o rew yng Ngwlad yr Iâ, a'r dyfroedd berwedig yn llifo o dan y ddaear yno.

Ac wrth i ni baratoi ar gyfer y mileniwm, mae'n werth i ni gofio fod yna fil o flynyddoedd ers i'r gŵr cynta o Ewrop hwylio tua'r America. Na, nid Columbus oedd o. Fe gyrhaeddodd o America tua 500 mlynedd yn ddiweddarach. Gŵr o Norwy — Viking o'r enw Leif Eiriksson oedd y cynta i setlo i lawr yn Greenland.

Enw prifddinas Greenland yw Nuuk ac yma mae Santa Clôs yn byw. Mae'r swyddfa bost yn Nuuk yn ateb dros 100,000 o lythyrau i Santa gan blant o bob rhan o'r byd bob blwyddyn. Mi alwa i'w weld o.

Beth arall garwn i ei wneud yn ystod 1998? Ennill y loteri? Na, dwi ddim yn meddwl, a phetawn i'n ennill ffortiwn fyddwn i ddim mymryn cyfoethocach.

Mi garwn i hefyd gael cyrraedd llwyfan y 400 steddffod i mi feirniadu ynddi. Wnâi mo hynny eleni, ond erbyn i mi gyrraedd oed yr addewid ym mis Mai mi fydda i o fewn ugain steddffod i'r nod. Ac os cai fyw ac iach i gyrraedd y 400 wel mi roi gora iddi wedyn, gan ddiolch am y ffrainc a'r pleser rydwi wedi'i gael dros y blynyddoedd o grwydro Cymru o steddffod i steddffod.

Oes 'na rywbeth yn fy mhoeni i? Wel oes, un peth — dwi'n ei chael hi'n anodd i roi enwau ar wynebau. Rhai yn dod ataf yn sgwrsio'n glên a chartrefol, a minnau'n methu'n lân â chofio pwy ydyn nhw. Hen brofiad cas.

Roeddwn i'n darllen cyfrol o ddetholiad o ysgrifau y diweddar

NODIADAU NATUR

Mae gerddi a pharciau yn llefydd gwych i weld bywyd gwyllt yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r llwyni, gwrychoedd a lawntiau yn yr ardaloedd yma yn sicrhau fod cyfoeth o anifeiliaid a phlanhigion, ac yn enwedig adar, i'w gweld yno. Mae llawer o'r adar sy'n byw ac yn ymweld â'n gerddi yn dod yn wreiddiol o goedwigoedd, ond mae nhw'n byw yn yr amgylchoedd artiffisial yma y dyddiau hyn gan fod llai o goed o gwmpas y wlad nag oedd yna 50 mlynedd yn ôl.

Mae coed mewn parciau a gerddi yn cael eu defnyddio fel safleoedd nythu ar gyfer pob math o adar, gan gynnwys y titw tomos las, ac yna fe'i gwelwn nhw yn ein gerddi pan fyddant yn edrych am fwyd. Mae'r titw tomos las yn treulio'i aeafau yn edrych ar hyd ganghennau'r coed am bryfetach ac yna symudant o ardd i ardd yn edrych am y rhai mwyaf suddog. Mae'r titw tomos las yn aderyn bychan a heini, ac fe'i gwelir yn y rhan helaeth o erddi, edrychwch am eu capiau ac aedynydd glas a'r melyn llachar sydd ar eu boliau a'u brestiau.

Mae bwydo adar yn ystod y gaeaf yn angenrheidiol, ac yn ddiweddar sylweddolwyd fod llawer o'n hadar yn cael trafferth

goroosi oherwydd y newidiadau mawr yn y tywydd ac am fod ein gerddi yn llawer mwy taclus nag oeddent. Felly, mae rhoi bwyd allan yn eich gerddi yn medru bod yn achubiaeth gwirioneddol i'r adar bychan.

Felly pa fath o fwyd maen nhw'n eu hoffi? Mae tameidiau o fwyd sydd ar ôl yn y tŷ, pethau fel caws, cnau heb eu halltu, bara, afalau a ffrwythau sych yn cael eu gwerthfawrogi gan adar, ond mae bwyd sy'n llawn braster yn rhoi egni iddynt ymdopi â'r tywydd oer. Os rhowch chi wahanol fathau o fwyd allan, yna fe gewch chi wahanol fathau o adar i'r ardd, oherwydd mae gan bob aderyn, fel chi a fi, eu ffefrynnau. Fe allech chi hyd yn oed wneud gwledd a hanner i'r adar. Er mwyn gwneud cacen adar, tywalltwch fraster sydd wedi meddalau am ben cymysgedd o dameidiau o fwyd a'i gymysgu'n dda, yna trowch ef allan pan fo wedi caledu.

Does dim rhaid i chi gael bwrdd adar yn eich gardd i blesio'r adar. Mae'r siff-saff a llwyd y gwrych yn mwynhau bwyta eu bwyd oddi ar y llawr. Ond cofiwch hefyd roi dŵr yn eich gardd fel bod ein ffrindiau pluog yn medru yfed ac ymolchi, ac os ydy hi'n rhewi'n arw mae dŵr yn hanfodol. Cofiwch newid y dŵr yn eithaf rheolaidd fel bod digon o ddŵr glân ar gael i'w yfed.

Mae 67% o boblogaeth Prydain yn bwydo adar yn yr ardd erbyn hyn. Felly pam na wnewch chi roi bwyd allan iddynt, a rwy'n siŵr y cewch chi lawer o ymwelwyr i'ch gardd chi ac fe gewch chi oriau o bleser yn eu gwyllo pan ddönt yn agos iawn i'r ffenest.

Barchedig O. M. Lloyd dros y Nadolig 'ma. *O Gadair Idris* yw'r teitl. Ysgrifau ydyn nhw a ymddangosodd ym mhapur wythnosol Dolgellau a'r cylch — *Y Dydd* — am gyfnod o dros chwarter canrif. Roedd O. M. Lloyd yn cael yr un problem hefyd:

*Bu adnabod wynebau — yn weddol
O hawdd i mi gynnu,
Rŵan gwn hyn, rwy'n gwanhau
Anodd yw cofio enwau.*

O, ia, rhag ofn i mi anghofio. Dwi wedi cael gwahoddiad i fynd i Ynys Enlli eleni hefyd ac rwy'n edrych ymlaen at gael mynd — mwy nag i Greenland am wn i. *Os byw ac iach ynte?* Blwyddyn newydd dda i chi gyd.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

SNOWDONIA PARK


WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

'Un funud fach ...'

LARWM

Hen beth swnllyd yw larwm. A niwsans. Yn enwedig y swm aflafar yna sy'n mynnu ei bod yn amser codi'n y bore. Fyddwch chi'n neidio o'r gwely yr eiliad y seinia'r larwm, neu swatio'n y gwely am ddeng munud pellach? A pha sylw wnewch chi o'r larymau diogelwch fydd weithiau'n canu am hydoedd gyda'r nos? Mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu hanwybyddu neu byddai'r swm yn distewi'n gynharach. Ac mae larwm car yn canu mor aml fel nad oes neb yn meddwl am ladron wrth glywed ei sgrech.

Ond fydden ni ddim yn anwybyddu swm y larwm tân. Rydan ni wedi clywed digon am drasiediau mawr i beidio cymryd sylw o hwnnw. Ffrind da yw'r larwm hwnnw sy'n gallu rhybuddio rhag perygl. Sawl gwaith seiniodd y larwm i'ch rhybuddio bod y sosban chips yn gorboethi neu bod y bacwn yn llosgi? Diolch bod y larwm wedi gwichian sawl tro cyn bod pethau'n mynd yn flêr.

Fydech chi ddim yn anwybyddu'r larwm tân er mwyn gweld diwedd 'Pobol y Cwm' na fydech? Ydan ni mor barod i wrando ar y larwm hwnnw a osododd Duw ynom i'n rhybuddio rhag gwahanol beryglon? Mae'r gydwybod yn dweud wrthym bod rhai pethau yn annoeth neu'n beryglus neu'n anghywir. Cyn i ni wneud camgymeriad a chyn i ni bechu, rydan ni'n aml yn cael rhybudd clir, ac yn gwybod bod y peth yn anghywir. Ond mor hawdd yw anwybyddu'r gydwybod a gwneud llanast o bethau.

Mae'n rhaid wrth fatri er mwyn sicrhau bod y larwm yn gweithio. Ydi'n cydwybod ni mor effro ag y dylai fod? Perthynas real â Duw sy'n sicrhau bod y gydwybod yn gwneud ei gwaith yn iawn ynom. Trwy fod yn agos at Dduw a bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n iawn yn ei olwg y byddwn yn sensitif i'r perygl o bechu yn ei erbyn. A'r berthynas honno hefyd fydd yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i rybudd y gydwybod mewn pryd. Y Duw osododd y larwm ynom sy'n ein helpu i glywed ei swm.

JOHN PRITCHARD

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Ffair Nadolig Plaid Cymru, 1997.

DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS. Bu John ac Irene Roberts yn dathlu eu priodas arian yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr ichi eich dau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mathew Gosset, 3 Pant Waun ar gyrraedd ei 18 oed; ac i Iona Williams, Garreg Fawr a Karen Bound, Bro Waun ar gyrraedd eu 21 oed.

GWASANAETHAU NADOLIG. Llongyfarchiadau i blant y ddwy Ysgol Sul am wneud eu gwaith mor raenus yng ngwasanaethau'r Nadolig.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Moira a Dylan Pierce, Bodwyn ar enedigaeth eu mab bychan, Tomos, wŷr i Elfyn a Glenys Pierce, Bryn Gwyn.

Ganwyd merch fach i deulu Gwynfa. Llongyfarchiadau ichi a chroeso ichi i'r Waun.

Llongyfarchiadau i Cyril a Grace, Bro Waun ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Elen Wyn, i'w mab Meirion a'i briod Sandra. Daeth Mr Richard Owen yn hen daid i'r fechan.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso i Trevor Beech, Bronallt a Ffion, merch fach Gethin a Sharon, Tref Eilian gartref o'r ysbyty. Mawr obeithiwn eich bod yn gwella; ac hefyd Alwyn, Bro Waun sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Helen Jones, Tref Eilian a

Miss Bessie Jones, Tref Eilian, mae'r ddwy yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion at Tomos Carwyn, Gwynfa, mab bychan Phil a Delyth, mae wedi syrthio a thorri'i goes.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Olwen Owen, Noddfa yn ei phrofedigaeth o golli ei mham.

Cydymdeimlwn â Mr Treflyn Thomas, Treforfan yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Yn dawel yng nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd bu farw Mrs Peters, Cae Steel gynt, anfonwn ein cofion at ei meibion, Dennis, Raymond, Leslie a Harold sy'n byw yn Ty'n-cae-newydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Williams, Cefn Coed yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd; ac â Mr Ron Turner, Collfryn yntau wedi cael profedigaeth o golli brawd.

CROESO. Teimlaf trwy dudalennau'r Eco roi croeso twymgalon i'n gweinidog, y Parchg Myfanwy Davies. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith yn y Waun — K.R.

CEFNOGAETH I'R RHEILFFORDD. Cafodd y bwriad i adeiladu rheilffordd rhwng Caernarfon a Phorthmadog gefnogaeth bellach yr wythnos hon pan benderfynodd Cyngor Cymuned Waunfawr a Chaeathro, yn eu cyfarfod ar Ionawr 8fed, ofyn i'w cynghorydd lleol Eurig Wyn i gefnogi'r rheilffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn: 'Mewn materion o'r fath rwyf yn llwyr ddibynol ar farn y bobl leol ac yn naturiol mae'n ofynnol imi gefnogi eu dymuniad. Ond byddaf yn dal i bwysu i frwydro dros fuddiannau trefeddiannwyr sy'n cael eu heffeithio gan y cynllun, yn ogystal â pharhau gyda'm hymgyrch i gael trac beiciau i gydfynd â'r rheilffordd.'

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Gangen ar nos Lun, 12fed o Ionawr i lunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn newydd. Cyfeiriodd y cadeirydd at y Ffair Nadolig a fu mor llwyddiannus a diolchodd i bawb a gyfrannodd at y noson. Bu Siôn Corn yn brysur y noson honno hefyd yn darparu anrhegion i blant y pentref.

Agorir gweithgareddau'r flwyddyn newydd gyda thaith gerdded i Landdwyn i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen a bwriedir ymweld â Llys Rhosyr. Yn ogystal ceir tair noson ar y cyd â'r Clwb Pêl-droed a'r Ganolfan yn Tŷ Stesion (Snowdonia Parc) ar nos Sadwrn olaf pob mis — Ionawr 31: noson o rاسus ceffylau ar fideo; Mawrth 28: grŵp gwerin Pigyn Clust; Ebrill 25: Broc Môr. Cysylltwch â Gill Brown (547) neu Jean Jones (444) am ragor o fanylion.

ENILLWYR Y CLWB 300 mis Rhagfyr — £40: Mr Alwyn Williams, Garreg Fawr; £25: Mrs Iona Overbury, d/o Bryn Gwenallt; £10: Mrs M. V. Jones, Hafod-y-coed.

DIOLCH i Carys a Marian am eu parodrwydd i roi eu hamser i blygu rhifyn Ionawr o'r Eco yn festri capel Ebeneser, Deiniolen.

DIOLCHIADAU. Dymuna John Elwyn Roberts, Glaslyn ddiolch i'w ffrindiau oll a'r teulu am yr holl gardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb. (Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno pen-blwydd hapus ichi. — Gohebydd)

Hoffai disgyblion chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i Snowdonia Parc am gyfrannu tuag at eu parti llwyddiannus i ddisgyblion Ysgol Pendalar.

MAE

SHARON VAUGHAN WILLIAMS

B.A. (Anrh.) Dip Perf

YN CYMRYD DISGYBLION AM WERSI PIANO, CANU A THEORI.

Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR

Ffôn: (01248) 353746

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r



**11 Rhes Faenol
LLANBERIS**
Ffôn: (01286) 871680

CHWILOTA MELIN BODRUAL



Er fod y rhan fwyaf o bobl y fro yn meddwl am ardal Bodrual fel rhan o Gaernarfon, eto'i gyd, ym mhlwyf Llanrug y mae'r fferm ac olion yr hen felin ar lannau'r Saint. Deuthum ar draws y cofnodion cynharaf am y felin hon sy'n dyddio tua dau can mlynedd yn ôl, ond mae'n siŵr fod y safle fel melin yn llawer hŷn, a gall ddyddio'n ôl i'r Canol Oesoedd pan oedd yn rhan o drefgordd Rhug neu Ruddallt, a rhent yn cael ei dalu gan y trigolion am gael malu ŷd yn y felin.

Daeth y fferm ar werth yn 1801. Fe'i prisiwyd yn y flwyddyn flaenorol gan rywun o'r enw Evan Owen, ond cler cyfreithiol o Fangor, Zaccheus Jones, oedd yn delio â'r stad. Roedd y tenant, William Prichard, bryd hynny yn talu £80 yn flynyddol o rent. Dyma ddisgrifiad o'r eiddo yn ôl catalog yr arwerthiant: '... placed in a fine sporting country within a few miles of hills which abound with grouse, and close to a dingle, remarkable for plenty of woodcock in the season, with a very fine trout stream running close by... Upon this stream, which never fails in the driest season, is erected an overshot mill at present yielding a handsome profit as a corn mill, but which is well worth the attention of any person desirous of establishing a manufactory in that country.'

Thomas Lloyd o'r Amwythig (ac o stad Glangwna) oedd y prynwr, a thalodd £1820 am y fferm, tiroedd a melin Bodrual. Yn fuan wedi hyn daeth gŵr o'r enw John Haslam i Fodrual o Market Drayton, Swydd Amwythig, ac am gyfnod o tua ugain mlynedd bu'r adeilad yn cael ei ddefnyddio fel melin bapur — yr unig un o'i bath yn sir Gaernarfon. Rhoddwyd hanes llawn y Felin Bapur a'r teuluoedd fu'n gysylltiedig â hi yn un o rifynnau cynnar *Eco'r Wyddfa*.

Wrth brisio'r fferm yn 1800 gwnaeth Evan Owen restr eiddo

(inventory) o'r holl offer o fewn y felin. Yn anffodus, copi o'r rhestr honno sydd ar gael, wedi ei chopio gan Zaccheus Jones ym mis Awst 1801, ac nid yw pob rhan o'r rhestr eiddo yn ddealladwy erbyn heddiw oherwydd ôl traul. Rhannwyd y stad yn ddwy ran ar gyfer yr arwerthiant. Roedd y ffermdy a'r adeiladau allanol, ynghyd â 25 acer o dir yn werth £1259; a'r felin a'i chynnwys ynghyd â 12 acer arall o dir, yn werth £775. Dyma rai o'r peiriannau a'r offer oedd yn rhan o'r felin: rowleri melin o haearn bwrw; strap y 'shilling mill'; dau bâr o feini melin (gelwir un pâr yn 'grind stones' a'r pâr arall yn 'common stones') strap i'r 'boulting machine'; wyth 'puck' haearn; un groes haearn a nifer o groesau bach; un radell; un 'shilling iron hammer' a thri mesur toll. Does gen i ddim syniad beth yn hollol oedd pwrpas yr offer hyn — offer ar gyfer melin flawd oeddent, ac efallai i'r cyfan gael eu gwerthu os oedd angen peiriannau gwahanol i felin bapur.

Ar hyn o bryd rwy'n ceisio darganfod mwy o wybodaeth am y math o beiriannau oedd yn cael eu defnyddio yn rhai o'r melinau dŵr cynnar hyn. Gobeithio y gallaf roi mwy o wybodaeth maes o law.

L. J. Roberts, Tan y Coed a dynnodd fy sylw at benillion yn crybwyll enw Bodrual. Testun y gerdd yw 'Gynt at Eto' gan T.

Gwynn Jones. Fe'i cyhoeddwyd yn ei gyfrol farddoniaeth *Caniadau*. Mae'n cyflwyno'r gerdd i 'W.E.'. Pwy tybed oedd hwnnw? Dyma'r gerdd:

*I lawr wrth hen felin Bodrual
Y gwelwyd y marchog gynt,
A'i darian a'i gledd a'i gorn bual,
A'i bennwn yn gweu yn y gwynt.*

*Fe'i gwelwyd un waith wedi hynny
Wrth Eglwys Lanfaglen ryw hwyr,
Ag ewyn y môr yn melyn,
A'r Eifl fel rhyw garnedd o gŵyr.*

*At Felin Bodrual bed elid
Yn ôl wedi hirfaith hynt,
Neu Eglwys Lanfaglen, a welid
Y marchog a welwyd gynt?*

Credid hefyd fod rhyw ysbryd yn gysylltiedig â'r hen felin — oes rhywun yn gwybod yr hanes?

SAMPLER LLANRUG / BIWMARES

Ddaeth dim mwy o wybodaeth ynglŷn â sut yr aeth sampler o Lanrug i Fiwmares, ond cefais alwad gan Mrs J. M. Jones, Hafan Elan, Llanrug a chroeso ar ei haelwyd pan alwais yn ddiweddarach. Roedd Griffith Jones a Dorothy, rhieni'r ferch a wnaeth y sampler, yn daid a nain i'w diweddar ŵr, John Griffith Jones. Dyma deulu Penrhos, ac y mae nifer helaeth o'u disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw.

Mab i Griffith a Dorothy oedd Griffith Jones. Priododd â Maria, merch Bryn Fedwen. Ymfudodd y ddau i'r America lle bu Griffith Jones yn rheolwr chwarel lechi mewn lle o'r enw Fairhaven. Ganwyd iddynt ferch o'r enw Dora. Bu'r fam a'r ferch farw yn Fairhaven, ond dychwelodd Griffith Jones i Lanrug i fyw gyda'i frawd a'i deulu. Mae Mrs Jones yn ei gofio fel dyn bychan

o gorff yn gwisgo het fawr 'fel American'. Bu farw yn 1956 a'i gladdu ym mynwent Llanrug.

Chwaer iddo oedd Elin Dora a briododd â John Evans, clocsiwr Llanrug. Os oes aelodau o'r teulu â mwy o wybodaeth yna cysylltwch â mi.

O'R CEUNANT I CHARTERS TOWERS

Yn dilyn yr adroddiad am hanes taith Edward Roberts i Awstralia, derbyniais wybodaeth bellach gan R. Williams, Llain Gwta, Llanrug. Mae hanes y fordaith yn llyfr Aled Eames *Y Fordaith Bell*. Dyma sydd gan Mr Williams i'w ychwanegu: 'Roedd Edward Roberts a'i frodyr, John a Richard, yn feibion i Robert Roberts, Panthafodlas, Ceunant; ac yn wyrion i Richard Roberts, Tŷ Uchaf, Ceunant — brodor o Glynnog. Ewythr iddynt oedd y Parchedig Edward Roberts, Tan'rallt, Ceunant, gweindog cyntaf Capel M.C. Ceunant.'

Yn ôl Mr Williams roedd chwaer Robert Roberts — Catherine — yn nain i Mr J. O. Hughes, Bryngwyn a Mrs Nancy Morris, Tan y Coed; a chwaer arall — Ellen — yn nain i Mr Robert Jones, Penhafodlas, Mr Owen Jones, Garth, a Mr Harri Jeffrey Roberts, Tai Newyddion.

Tybed a oes rhai o'r disgynyddion hyn mewn cysylltiad â'r teuluoedd yn Awstralia?

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Eurun (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Wavell Roberts

CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref


Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWESTY PEN GORFFWYSFA

Daeth y lluniau i law gan Mr Idwal Williams, Cwm-y-glo, ynghyd â gwybodaeth am yr adeiladau oedd yn bodoli o gwmpas y gwesty. Tybed faint o'r darllenwyr sy'n cofio'r Siop Hen Greiriau ('Antique Shop' fel y'i gelwid). A oedd hen greiriau go-iawn yn cael eu gwerthu yno, ynteu math o siop cofroddion ydoedd?

Sylwch fel y mae 'Pen y Pass Hotel' wedi'i sgwennu uwchben drws ffrynt y gwesty, ond 'Gorphwysfa Hotel' ar y talcen.


Y mis nesaf: 'Ffatri Lemonêd Llanberis' a phytiau eraill. Os oes unrhyw ymholiad gennych, neu wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r Eco, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.



Ffrynt y gwesty. Owen Rawson Owen sy'n sefyll ar y dde.



Yr enw ar dalcen y gwesty.



Y gwahanol adeiladau o gwmpas y gwesty: (a) 'Antique Shop'; (b) y seler lle cedwid y diodydd; (c) y cwt mangle; (ch) garej; (d) bythynnod — lle câi ymwelwyr aros noson; (dd) beudai; (e) garej uchaf.



Yr 'Antique Shop'.

DIANA

Parodi ar 'Jezebel' gan T. H. Parry-Williams

Lloegr oedd tir ei llin. Ymroes ei byw
A'r deyrnas i'w thecau. Roedd cochni'r rhos
Yn harddwch ar ei min, a glesni gwawr
Ei llygaid heb dristáu. Hon ddaeth i frig
Brenhinllys Llundain draw. Teyrn oedd ei thras
A'i mab yn ddarpar deyrn. Yr oedd ei holl
Osgo'n lliniaru braw, fel y bydd gwres
Yn gwano gwydnwch heyrn. Nid oedd y wasg
A'i dychan na'r gwrth-Dduw, ond megis dim
O flaen trugaredd hon. Fe falai'r ferch
Bob dydd am ddynol ryw. Yr ydoedd gras
A gresyn yn ei bron. Felly y gwnaeth
Ei phryd a'i bryd hi'n ben-angyles, nes,
Fod rhai yn dwedyd, 'Dyma wir BrinCESS'.

Yn llawen ar ei rhawd eisteddai hi,
Yng nghefn y cerbyd chwim. A'r gyrrwr chwil
A ffôl yn herio cnawd, wrth yrru rhag
I'r wasg gael llun na dim. Nes hyrddiwyd oll
Yn swp i bost gerllaw, gan ddryllio'r car
Yn yfflon rhacs ar lawr, a chollwyd hi,
Y druan maes o law. Yna bu'r byd
Yn wlo galar mawr. Ond wedi hyn
Daeth cri o deulu'r Plas, 'Tosturiwn ni,
Gofidiwn fel y chwi. Parchwn hi'n awr
Anrhydedd foed i'w gras. A chofiwn mam
T'wysogion ydoedd hi.' Fe fydd mewn bri
Trwy oesoedd maith y byd a'i hanes, nes,
Fod pawb yn dwedyd, 'Dyma wir BrinCESS'.

Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog Fawr



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



YSBRYDOLI

gan Y GWALCH

Roedd Jên Lewis yn credu ei bod hi wedi bod yn ffodus iawn yn gallu prynu y tŷ pen ar y gongl yn y pentra mor rhad, ac wedi cel gwarad â'r hen dyddyn hefyd heb fawr oedi, ac wrth gwrs roedd hi'n nes at betha; dim ond croesi'r stryd i gael ei phension a'i mymryn anghenion, ac yr oedd yno fus yn mynd i lawr i'r dre ar y glanna bob awr, tasa fo'n taro yn ei phen hi i fynd.

Roedd hi hefyd wedi bod yn lwcus yn ei chymdogion y tŷ nesa; Cymry — Dafydd a Sandra a'r 'jyrbuls' bach fel yr oedd hi'n galw'r ddau blentyn, brawd a chwaer, ac yr oeddau nhw â chysidro yn hynod o dawal.

Ond wrth gwrs yr oedd yna'r 'draw backs' chwadadl nhwtha, fel sydd ymhob man: rhyw hen blant yn hel ar y gornal i gicio pêl yn erbyn y talcan, a doeddau nhw ddim tu draw i gamgymryd honno am ei drws ffrynt hi weithia, ac yr oeddau nhw yn cnocio yn dragywydd, esgus hel at rhyw achosion ffug, a nos Glangaea — roedd hi'n dal rhywbath heblaw ei gwynt.

Peth arall oedd yn chwithdod; yr oedd hi yn y lôn cynta ag yr oedd hi'n agor y drws, yn lle fod yna led dau gae rhyngddi hi â honno, ac yr oedd y groeslon honno yn gyfyng a pheryglus a phawb yn rhuthro, ac yr oedd yna rhyw lafna yn hel yno gyda'r nos hefo moto beics yn gwneud twrw. Roedd yna lythyra dienw wedi bod amdany'n nhw yn y wasg, ac yr oedd yna ddeiseb wedi ei hanfon i'r cyngor yn annog cael goleuadau traffig, ond yr oedd gan rheiny betha rheitiach i'w gwneud hefo arian pobol; fel gwadnu eu hesgidia neu newid eu ceir bob blwyddyn. Y peth cynta fyddai Jên Lewis yn ei ofyn i rai a fyddai yn dŵad i'w gweld, yn enwedig Mrs Tomos Insiwrans oedd: lle rydach chi wedi gadael y'ch moto?

Ond does neb yn nabod lle newydd yn iawn nes y bydd o wedi byw yno am gyfnod. Dechreuodd Jên gael ei tharfu gan rywbeth arall ar adega a hynny yn yr oria mân. Rhyw swm oedd o fel tasa rhywbeth chwadadl hitha, yn drybowndian i lawr y grisia, ac mor annifyr yr aeth o yn y diwedd, fel y cododd hi gefn nos a mynd allan i'r talcan yn ei choban rhag ofn fod rhai o'r hen blant rheiny wedi codi drwy eu hunan, ond roedd pawb yn ei hun a'i heddi, a dim ond gola melyn ymhob man yn gwneud yn siŵr fod pob lleidr yn gweld llwybr i'w law.

O'r diwedd aeth y swm yn gymaint prydar fel y soniodd hi amdano wrth Sandra tŷ nesa, ond doedd honno wedi clywad dim, eto yr oedd Jên yn cael yr argraff ei bod hi'n gwybod mwy nag yr oedd hi'n fodlon i ddadlennu.

Ond Tricia 'home help' ddaru hau'r hedyn cynta o amheuaeth, a hynny yn anfwriadol gan nad oedd Jên wedi sôn dim wrthi hi. Roedd hi'n cael ei phanad gynta yn y gadair esmwyth wrth y tân, yn y sgert honno oedd rhyw ddau faint yn rhy fychan, a'i chluniau yn groes, newydd ddŵad o'r siop gwallt, tra yr oedd yr hen Fusus ar ei glinnia o flaen y tân yn tynnu clwt gwlyb dros deils yr aelwyd.

'Does 'na neb yn aros yn hir yn y tŷ yma yn nagoes,' meddai Tricia.

'Taw â deud,' meddai Jên. 'Sut gwyddost ti?'

'Wel,' meddai Tricia ar ôl tanio sigaret, 'Mr Pritchard i fyny'r rhes oedd yn deud pan oeddwn i yn mynd ato fo, bod y fan ddodran y tu allan i'r tŷ 'ma cyn amlad â char llefrith.'

'Taw di,' meddai Jên wedyn. 'Dyna'r munud cynta i mi wybod.' Ond yr oedd yr hedyn wedi gwreiddio cymaint erbyn y daeth Mrs Tomos Insiwrans, nes iddi benderfynu dweud wrth honno am y swm.

'Mae'n siŵr fod gennych chi ryw bresenoldeb,' meddai honno ar ei hunion.

'Be 'dach chi'n feddwl?' gofynnodd Jên. 'Bwgan, felly?'

'Os mai dyna yr hoffech chi ei alw.' Ac ar y funud cofiodd yr hen Fusus am beth ddeudodd Tricia.

'Ond mae modd cael gwared ag ysbrydion wyddoch chi,' meddai Mrs Tomos, a oedd yn dechra mynd yn ddyfn i'r busnas, gan mai ysbrydoleg erbyn deall oedd ei phrif ddiddordeb. 'Mae 'na ddyn — wel, mae'r gŵr acw yn ei adnabod o — mae o'n gwneud rhaglenni ar bethau fel yn ar y teledu. Rydach chi wedi ei weld o mae'n siŵr.'

'Nag ydw i'n wir,' meddai Jên, oedd erioed wedi gweld na chlywad dim gwaeth na hi ei hun tan hynny. 'Fydda i ddim yn gwylio rhyw fflawch fel yna.'

Ond yr oedd Mrs Tomos wedi cael ei dannadd yn y pwnc. 'Mi fedran ni ei gael o i ddod yma i'ch gweld chi os hoffech chi.'

'Cymwch ofol,' meddai Jên wedyn, ond ymhnen mis arall, ar ôl cael boliad ar y drybowndian ar y grisia, pan ddaeth Mrs Tomos i hel ei hinsiwrans claddu hi, roedd hi wedi newid ei meddwl.

Y canlyniad oedd i'r dyn gyrraedd rhyw gyda'r nos Dachweddol yn annisgwyl, ac yr oedd Jên wedi gwaredu cymaint wrth ei olwg o fel yr anghofiodd yn llwyr i ofyn ble roedd o wedi gadael ei gar.

Roedd hi'n anodd amcanu oed y dyn, mor flewog oedd o. Roedd ei farf a'i wallt o yn cyfarfod a'u gilydd rhywla o gwmpas ei lygada fo, nes yr

oedd o'n ymddangos 'run fath â'r bobol bach rheiny sy'n trigo yn y fforestydd tywyll, ar y rhaglenni natur, yn specian rhwng y dail fel tasa nhw'n disgwyl pobol ddiarth. Mae'n siŵr tasa yr hen Jên wedi clywad am Rasputin y mynach, y basa hi'n ei gymharu o hefo hwnnw. Fel yr oedd hi yr oedd hi'n meddwl tasa rhywun mor anffodus â dŵad i'w wynab o mewn lôn gul ar noson dywyll, y basa fo'n ddigon o fwgan ynddo ei hun heb iddo fo drafferthu mynd i chwilio am chwanag.

Beth bynnag ar ôl iddo fo ista roedd o yn hen siortyn digon diridaro, ond soniodd o ddim am fwganod. Roedd ei ddiddordeb o fwy ym mhetha Jên: y canhwylbrennau a'r 'warming pan' a'r cloc mawr.

'Ma' hwnna yn werth rhwbath,' meddai fo fel'na.

'Tewch â deud,' meddai Jên fel tasa hi ddim yn gwybod yn barod.

Wedyn dyma fo'n sylwi ar y llunia ar y sillf ben tân.

'Y mab a'r ferch ydy rheina,' meddai Jên gyda balchder. 'Mae hi yn ddarlithydd yn California ac Alwyn yn gweithio mewn lle atomig yn Australia.'

Ac yr oedd gan y dyn rhyw syniadau anghyffredin. 'Mae'r goreuon i gyd yn gorfod mynd odd'ma,' meddai fo. 'Fasa yna ddim Cymry onibai am y di-waith.' A dyma fo'n dechra holi wedyn am ddiweddar wr Jên Lewis, ac mor fanwl oedd o nes iddi ddechrau cario'r syniad fod Edwin, chwadadl hitha yn dŵad am dro o'r fynwant i ddal ei phiwsio hi.

Beth bynnag ar ôl iddi egluro am y swm ar y grisia, daeth y dyn i benderfyniad. 'Mi fydd yn rhaid i mi ddŵad yma i aros y nos,' meddai fo, 'i gael gwarad ohono fo i chi.'

Ond roedd Jên wedi cynhyrfu. 'Oes rhaid i chi?' gofynnodd ar unwaith. 'Mi eith 'na sôn amdana i.' Ond chymrodd Rasputin a oedd wedi ei feithrin mewn oes arall fawr sylw, a dŵad wnaeth o rhyw noson i ista yn y bedrwm gefn, tra yr oedd Jên yn hepiant yn y gadair i lawr grisia. Fel y dywedodd hi wrth Tricia 'home help' wedyn. 'Sut y medrwn i gysgu â pheth felly am y parad â fi. Be' wyddwn i na fasa fo yn trio torri trosodd ata i.'

Fu gwylnosau'r dyn ddim yn ofer. A Jên yn ei chadair rhyw noson yn yr oria mân, clywyd y drybowndian, ac wedi iddo ddarfod aeth yr hen wraig i waelod y grisia i weiddi ar y dyn. 'Glywsoch chi o?' Ond doedd dim llef na neb yn atab. Aeth hitha i fyny yn betrusgar a dyna lle yr oedd y gŵr yn nrws y llofft bach â'i sylw fo ar y gwagdar pell, fel tasa fo wedi canfod rhywbath nad oedd yn weladwy i feidrolion y ddaear. Aeth hitha i lawr yn ei hól heb ddeud gair o'i phen i neud panad a rhoi jioch reit dda o frandi yn llygad honno, ac erbyn hyn roedd hi ar gyfyng gyngor ffonio naw-naw-naw, ond fedra hi ddim llawn benderfynu p'run ta yr

ambiwlans ynta'r dynion tân fasa hi'n ofyn amdany'n nhw.

Ond doedd yna ddim rheswm dros bryderu. Pan ddaeth y dyn i lawr o'r diwedd yr oedd o wedi dŵad ato ei hun ac yn ddigon suful, ac yr oedd o medda fo wedi datrus y dirgelwch. Yr oedd yno fwgan, a'r peth cynta yr oedd o'n bwysleisio oedd, ei fod o yn ddigon diniwad. Doedd ganddo fo ddim bwriad o gwbl neud niwad i Jên na'r un bwriad anfad. Fel ffaith roedd o wedi bod yn greadur bach anffodus iawn ei hun, achos roedd o wedi cael sgwrs hefo fo ymhnen y grisia cyn iddo fo gael ei bancan, achos dyna oedd o wedi gael doedd dim dadl, ac mi fuo'r godwm i lawr y grisia yn ddigon iddo fo, ac aeth y dyn i helaethu.

Pâr ifanc oedd wedi byw yno yn yr hen ganrif hefo baban bach. Roedd yna rhyw anghaffael ar hwnnw gefn nos, a chododd y gŵr i fynd i lawr y grisia i nôl cyffur iddo fo. Baglodd ar odra ei goban a syrthio i lawr i waelod y grisia a thorri ei wegil, ac ychwanegodd mai ail actio eu heiliadau olaf y mae bwganod fel rheol.

'Does yna ddim posib cael gwarad ohono fo?' gofynnodd Jên, 'Cyfeillgar neu beidio.'

'Oes,' meddai'r dyn, 'ond mi garwn i gael y'ch caniatad chi i neud un peth cyn hynny.'

'O?' meddai Jên yn reit grwn.

'Mi garwn i wneud ffilm. Mae hi'n sefyllfa hynod ddiddorol ac unigryw.'

Wyddai'r hen Fusus ddim beth i ddeud ar y pryd, ond caniatawyd cyfnod iddi feddwl. Ond yn y cyfamser roedd 'bwgan Jên Lewis' wedi mynd yn wybodaeth gyffredinol. Roedd hyd yn oed Kumar a Nazreen Krishna y Post yn ei hannog i neud y ffilm a Mrs Tomos Insiwrans, ac yr oedd Tricia yn ymyrchestyn wrth bawb ei bod hi'n gweithio mewn tŷ â gôst ynddo fo, ac yr oedd hi'n gwingo fel cnony'n cwsberis o gyfaredd. Ond doedd Sandra tŷ nesa ddim llawn mor frwdfrydig.

'Gwatsiwch be 'dach chi'n neud wir,' meddai hi wrth Jên dros y wal wrth hel dillad. 'Rhaid i chi gofio y bydd y'ch 'antiques' chi i gyd ar sioe i'r byd os ydyn nhw am ddŵad a cameras i mewn. Mi gewch dincars yn y drws. Roedd 'na ddau hen lanc i lawr y wlad 'na ers dim llawar wedi cael ffilmio tu mewn i'w tŷ a hwnnw yn llawn o hen betha. Rhyw ddiwrnod pan oeddau nhw ddim yno mi stripiwyd y lle. Wedyn cymwch ofol wir Dduw.'

Roedd Jên yn gweld hynny yn gyngor digon rhesymol, ond mae pobol sydd yn derbyn cynghorion yn barod wedi gneud eu penderfyniada fel rheol. Roedd Jên am ei mentro hi; tincars neu beidio, achos roedd y dyn bwganod wedi ei sicrhau hi y basa hi'n cael ei gwobrwyo yn anrhydeddus.

(I'w barhau)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partiön, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

PLWYF LLANDINORWIG

GWAHODDIR TENDRAU AM Y GWAITH O DORRI GWAIR YN YSTOD 1998 YM MYNWENT EGLWYS CRIST, DEINIOLLEN.

CEIR MANYLION LLAWN AM Y GONTRACT GAN:

Y Parchedig TEGID ROBERTS

Arwel, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 3BA

DYDDIAD CAU: 20 CHWEFOR 1998

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

MERCHED Y WAWR. Crwydro fu hanes aelodau Merched y Wawr Deiniolen dros gyfnod y Nadolig. Aeth eu taith gyntaf, ar Dachwedd 27, â hwy i Gapel Jeriwsalem, Bethesda i wrando'r telynor bydenwog wrando Huw Bowen a chafwyd gwledd ganddo wrth iddo berfformio ar y delyn deires Gymreig gan roi peth o'i chefnidir, yn ogystal â hanesion difyr a hwyliog o'i deithiau i bob cwr o'r byd. Ar ddiwedd y noson gwahoddwyd pawb i fwynhau paned a bisged yn y festri. Ar y ffordd yn ôl teithiodd y bws dros Fynydd Llandegai ac ar hyd Lôn Cerrig Nyth, a chaed gwledd ychwanegol o weld holl oleuadau'r pentrefi a'r trefi oddi tanom. Fel y dywedodd un o'r merched, 'Pwy fuasai eisiau mynd i Blackpool?'

I Amgueddfa Gorsaf Drydan Dinorwig yn Llanberis yr aed ar Ragfyr 1, i fwynhau swper ysgafn. Gan mai ni oedd yr unig ymwelwyr yno y noson honno yr oedd digonedd o le ac amser i bawb grwydro o gwmpas y siop a phrynu ambell anrheg Nadolig, ac i fwynhau'r arddangosfeydd arlunio, gwaith coed, a lluniau o chwaraewyr. Gwelwyd ffilm o fywyd gwyllt yr ardal ac i goroni'r noson gwahoddwyd ni i wrando ar Gôr Meibion Dyffryn Peris yn ymarfer, a chawsom ymuno â hwy i ganu ambell garol. Yr oedd yn noson bleserus iawn a chroeso a sirioldeb staff yr Amgueddfa yn ychwanegu at hynny.

Taith mewn bws mini i gapel Ebeneser, Caernarfon i wasanaeth 'Cadwyn y Nadolig' oedd y daith olaf, nos Sul, Rhagfyr 7. Yr oedd llawr y capel yn orlawn o aelodau Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon, ar wahân i ambell ŵr dewr a fentrodd i'w plith. Llywydd y rhanbarth, Megan Roberts, Caernarfon oedd yr arweinydd a Rhianwen Huws Roberts, Penrhosgarnedd yn arwain y gân a Glenys Griffiths, Bethel yn cyfeilio. Cafwyd eitemau gan Gôr Alawon Menai, Clychau'r Grug a Pharti Glannau Menai. Aelodau o'r gwahanol ganghennau oedd y llefarwyr. Yr oedd graen arbennig ar y gwasanaeth. Yn wir cymaint oedd y llwyddiant fel bod sôn am gynnal gwasanaeth tebyg y Nadolig nesaf.

Edrychwn innau yn Neiniolen ymlaen at raglen lawn a difyr, ac ambell daith eto, yn y flwyddyn newydd.

EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Am saith o'r gloch, nos Lun, 2 Chwefror, ar Wyl Fair y Canhwyllau, bydd Capel Mair yn cael ei agor yn swyddogol mewn gwasanaeth arbennig gan yr Hybarth Elwyn Roberts, M.A., Archddiacon Bangor. Estynnir croeso arbennig i bawb i'r gwasanaeth yn enwedig y plwyfolion hynny oedd â chysylltiad ag Eglwys y Santes Fair, Dinorwig a gafodd ei chau ddeugain mis yn ôl bellach. Am fwy o fanylion cysyllter â'r Clerig Mewn Gofal neu'r Wardeiniaid.

DIOLCHIAU. Dymuna Tydfil Jones ddiolch o galon i staff Ysbyty Gwynedd, Clinig Deiniolen, plant yr Ysgol Sul, teulu a'r holl ffrindiau am eu caredigrwydd iddo tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Maldwyn ac Emma Lewis, 27 Rhydfadog ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y lluo cardiau a'r anrhegion eu mab, Daniel Lewis. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Annie Mary Morris, 8 Bro Deiniol ddiolch i'w pherthnasau a'r lliaws cyfeillion am eu cymwynasau a'u cydymdeimlad ar yr achlysur trist o golli ei mab, Goronwy, yn gynnar yn y flwyddyn newydd.



Hoffai disgyblion chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i Menter Fachwen, Gwyn ac i Spar am gyfrannu tuag at eu parti llwyddiannus ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar.

TAITH BRESWYL — HAF 1998. Yr wyf yn trefnu taith breswyl i aelodau Eglwys Crist, Llandinorwig ac Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun yn Lincoln ac Efrog o ddydd Llun y 10fed hyd at ddydd lau y 14eg o fis Awst eleni. Byddwn yn aros yng ngwesty'r Grand yn ninas Lincoln. Ar y ffordd i Lincoln byddwn yn galw ym mhentref Bradwell, Swydd Derby, a'r mwelwedd â rhai rhai o'r ffynhonnau addumedig yno. Tra yn Lincoln bydd cyfle i ymweld a'r castell lle cedwir yr enwog Magna Carta, a'r Gadeirlan. Bydd cyfle i siopa hefyd ac ymweld ag un neu ddau o atyniadau eraill yn ardal y Fens, a chofeb y Dywysoges Gwenllïan yn Sempringham. Bydd ymweliad hefyd â Chaer Efrog am ddiwrnod llawn ac wrth ddychwelyd i Gymru byddwn yn galw heibio Althorp, lle claddwyd y Dywysoges Diana. Cost y cyfan yw £160. Am fanylion pellach cysyllter â'r Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug (ffôn: 01286 870760).

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Ellen a Tecwyn, 1 Caradog Place ar enedigaeth mab, Gareth Wyn, brawd bach i Rhys Ellis ac ŵyr bach i Neville a Dilys, Deiniolen a Dick a Hefina, Llanrug. Dymunant ddiolch am y cardiau anrhegion a'r arian; hefyd diolch i Uned Mamolaeth Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

EBENESER A CHEFNYWAUN. Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr

TÎM SNWCER LLYFRGELL DEINIOLEN

Ail yn y gynghrair a chwaraewyr yn rownd derfynol y Gwan Her yn 1950

Rhes ôl (o'r chwith i'r dde): Huw John Williams, Robin Owen Thomas, Goronwy Owen, John Murray Rowlands, Johnnie Williams (rhent), John R. Harries, Meirion Owen, Leslie Roberts (Cae Main), Now Jones (insiwrans), Bobby Woodcocks, Aled Jones, Richard Jones, Willie David Jones, Griffith Peris Roberts, Selwyn Jones, Dafydd (crys) Jones, Idwal Jones.

Ail res: Owie Williams, Gordon Davies, Guto Pleming, Stanley Haydn Roberts, Arthur Owen, Eric Williams.

Rhes flaen: Tom Williams, Jackie Davies, Eurwyn Parry, Gwenlyn Parry, Eban Griffiths (Penlan), Dennis Evans, Gwilym Hughes, Elwyn Jones, Bobby Grindley.

Y tîm buddugol oedd y Prince of Wales, Pen-y-groes. O'r 32 sydd yn y llun dim ond un ar ddeg sy'n fyw heddiw.

Ysgol Sul fore Sul, Rhagfyr 21 a daeth cynulleidfa dda ynghyd. Diolch i'r athrawon am drefnu gwasanaeth graenys fel arfer. Diolch iddynt hefyd am eu holl lafur yn yr Ysgol Sul trwy'r flwyddyn. Cafodd y plant barti Nadolig brynhawn Rhagfyr 19 yn festri Ebeneser. Diolch i bawb a fu'n brys yn paratoi'r parti a diolch i Siôn Corn am alw heibio eleni eto. Y CYNGOR EGLWYSIG. Daeth eglwys i'r pentref at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig mewn dau wasanaeth a gynhaliwyd yn Eglwys Llandinorwig. Noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth Cymuned dan arweiniad y Parchg Tegid Roberts; a'r nos Sul ddilynol, Rhagfyr 28, cafwyd Gwasanaeth Cristingl. Nos Lun, Ionawr 12, cynhaliwyd oedfa dechrau'r flwyddyn yng nghapel Libanus. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Olaf Davies ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg John Pritchard.

Y CYFARFOD PLANT. Mae'r Cyfarfod Plant wedi aildechrau erbyn hyn yn Ebeneser ar brynhawn lau. Byddem yn falch iawn o weld rhagor o blant yn ymuno â ni yn union ar ôl amser ysgol.

DIOLCH. Dymuna Mrs Annie James ddiolch i'w thelu a chyfeillion am y cardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch hefyd am y galwadau ffôn ar ôl dod adref.

Y SEINDORF. Prysur iawn fu hanes y Seindorf dros y Nadolig gyda chyngherddau, canu carolau ac ymweliadau â wardiau Ysbyty Gwynedd.

Croesawyd tri aelod newydd, sef Richard Jones, Owain Tudur ac Elfyn Williams — y tri gyda phrofiad eang

iawn — a chroesawn Maldwyn Morris yn ôl wedi cyfnod yn y coleg. Gobeithio y bydd y pedwar yn hapus yn eu band newydd.

Ffarweliwyd a dau aelod, sef Gareth Hughes yn dychwelyd yn ôl i Lanrug; ac Euros Williams yn ymuno â Band Yorkshire Building Society. Carem ddiolch i'r ddau, ac yn enwedig i Euros am ei wasanaeth ffyddlon dros y blynyddoedd, gan ddymuno'n dda iddo yn ei fand newydd. Wrth sôn am fand newydd Euros, roeddem yn falch iawn o glywed am fuddugoliaeth yr Y.B.S. yn y 'British Open' a gynhaliwyd yn Birmingham yn ddiweddar gyda 199 o farciau allan o 200. Yn ogystal ag Euros mae ei frawd Iwan, Eilir Williams a Gavin Saynor yn aelodau o'r band hwnnw hefyd. Digon o waith y gall unrhyw fand pentref arall ym Mhrydain ymffrostio bod pedwar cyn-aelodau o'u band yn aelodau blaenllaw o bencampwyr Prydain ac Ewrop. Tipyn o glod i fand Deiniolen.

Deallwn hefyd fod Siân Griffith wedi ymuno â band enwog Wingates a dymunwn yn dda iddi hithau hefyd.

Bydd hon yn flwyddyn gyffrous iawn yn hanes y band gan y byddwn yn cystadlu yn Nosbarth Dau, gyda'r gystadleuaeth gyntaf yn cael ei chynnal yn Abertawe ym mis Mawrth. Gobeithir dechrau adnewyddu'r ystafell ymarfer yn ystod mis Ebrill.

Llongyfarchiadau i Trystan Morris enillydd Barian Coffa Mr a Mrs O. H. Jones, Bronallt, i'r offerynnwr mwyaf addawol y band ieuencid yn 1997.

TORRI'N RHYDD

gan BETHAN WILLIAMS

Stori fuddugol am y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Pam na allai siarad?

Dio'm yn deg! Dwi wedi trio ers oes a dwi dal methu siarad. Be sy o'i le? Dim jest y geiriau mawr sydd, dwi'n ca'l trafferth hefo'r geiriau bychan, llythrennau, synnau!

Rwy'n gweld yn iawn, ella bod hynny'n waeth. Bob dydd, bob awr dwi'n gorfod edrych ar y pobl yn siarad, eu clywed nhw'n siarad, felly, pam na allai siarad? Dwi ddim gwahanol i neb arall, fymryn yn llai na rhai ella, ond ar wahân i hynny dwi'n union fel pawb arall bob tamad!

Ella na'r ysfa sydd ar fai, ella mod i'n ysu cymaint am gael siarad fod yr ysfa wedi ei lyncu o! Ond eto, dwi yn siarad, tu mewn, i mi fy hun.

Y stafell 'ma ydion. Ia. Dwi 'di bod yn y stafell yn rhy hir. Mi fasa unrhyw un sy'n gweld walia glas gloyw bob dydd ac ambell ddodrefn lliw yn cael ei effeithio. Ar ôl diwrnod neu dday yn y stafell yna mi fasa pawb methu siarad.

Ond dwi'n ca'l mynd allan. Weithia. Ar adeg, os dwi'n ymddwyn yn dda dwi'n ca'l mynd allan i weld adar a siopa a ceir! Dwi'm yn ca'l mynd ar ben fy hun, ma' rhywun wastad hefo fi a dwi'n ca'l fy nghlymu rhag mod i'n dianc, ond dwi'n ca'l mynd allan! Dio'm ots gin i os faswn i'n gorfod ca'l fy nghlymu bob tro os faswn i'n ca'l mynd allan. Dwi'n siŵr wedyn, ar ôl bod allan am hir, faswn i'n gallu siarad! Byswn! Gallu siarad pymtheg y dwsin heb gymryd gwynt!

Pan dwi'n mynd allan, dwi'n gweld pobol a weithia' ma' nhw'n siarad efo fi. Ma'n gas gin i hynna. Os nad ydyn nhw'n siarad yn iawn fasa'n well gin i os fasa nhw'n anwybyddu fi! Yn aml, ma' nhw'n sbio ar y Ddines pan ma' nhw'n siarad hefo fi. Pam? Dwi yn dallt ond dwi methu atab yn ôl. A bob tro ma' nhw'n siarad hefo fi ma' nhw'n 'y nhrin i fel rhywun twp! Yn siarad â cheg mawr fel anghenfil ac yn gweiddi rhag mod i'm yn dallt! DWI YN DALLT!

Dwi'n berwi y tu mewn bob tro ma' hynna'n digwydd. Pan fydda i'n gallu siarad mi fydda i'n gweiddi ar 'u hola nhw, 'Ewch o'ma'r bastards! Dwi ddim yn dwp! Ddangosa i ichi ... rhyw ddiwrnod.' Rhyw ddiwrnod? Be os wela i ddim y diwrnod yna? Be os na alla i siarad?

Dio'm yn deg! Doedd hi ddim fel yma o'r blaen.

Na, o'r blaen teimlais yn saff ym mhobman. Roedd gen i foethusrwydd, cynhesrwydd, dim cynhesrwydd gwres canolog ond cynhesrwydd ysbrydol. Wnes i erioed deimlo'n oer, yn llwglyd nac yn anobeithiol. Doedd dim poen i'w gael o'r blaen. Doeddwn i ddim yn gweld cymaint o bobl ond roeddwn i'n hapus. Doeddwn i ddim yn gwybod ystyr y gair clymu, neu ofn! Na, roeddwn i wastad yn rhydd ac yn saff. Ac mi allwn i siarad!

Ond yna, roedd rhaid i mi ddod o'r lle a symud ymlaen i'r fan hyn! Pan gyrhaeddais teimlais fel sgrechian dros bob man a rhedeg i ffwrdd. Roeddwn i eisiau mynd yn ddistaw bach fel llygoden ar draws yr adeilad ac allan trwy'r drws. Mi wnes i sgrechian! Dros bob man ond ildio fu'n rhaid i mi. Roedd yn rhaid i mi dderbyn mai fan'ma ydi fy lle i rwan ac yn y fan hyn fydd yn rhaid i mi aros.

Mae hi'n gynnes yma ond y gwres canolog sy'n gyfrifol am hynny a dim arall! Rwy'n cael bwyd a moethusrwydd yma ond does dim byd ychwanegol ato. Does dim cryfder emosiynol wrth i mi gael fy mwydo, wrth i mi gael cysur, dim fel o'r blaen.

Y Ddines yw'n ffeffryn i. Mae'r Ddines wastad yno ac wastad yn glên. Gwên gynnes sydd ganddi, gwên sy'n cysuro unrhyw un. Pan mae'r Ddines yn gwenu arna i rwy'n teimlo'n gynhesach, pan dwi'n drist neu'n flin mae'r Ddines wastad yno i afael ynddof i'n dynn ac wrth iddi wneud hynny mae hi'n fy nghyngesu ac yn fy nhawelu. Rwyf wedyn yn teimlo fel o'r blaen. Mae Ddines yn ddynes garedig.

Dwi'n ysu am gael dweud hynny wrthi ond alla i ddim oherwydd alla i ddim siarad! Pam na cha i ddweud wrth y Ddines mod i'n ddiolchgar, yn teimlo'n saff, yn gynnes ac yn arbennig pan rwy'n ei chwmmi? Mae arbed rhywun rhag cael dweud hynny wrth un arall yn greulon!

Weithiau rwy'n ceisio cofio sut lais sydd gen i. Os gaf i'n llais yn ôl fydd dim ots gen i sut un ydyw, un cras, meddal, mwyn, dwfn, uchel, neu hyd yn oed fel robot? Dwi jest eisiau siarad!

Wrth i mi eistedd yma yn fy

ystafell rwy'n breuddwydio. Mae gen i un freuddwyd arbennig sydd wastad yn cael ei ailadrodd yn fy meddwl. Rwy'n fawr yn y freuddwyd, yn dal ac yn dennau, rwy'n gwisgo'n dwt bob tro ac mae gen i wên gynnes, fel y Ddines — fy ngwaith yw siaradwr, rwyf am benodi fy hun yn siaradwr! Ella nad oes yna'r ffasiwn swydd ar hyn o bryd ond myn coblyn i ni fydd yna! Gofynnion fy swydd yw gallu siarad ag unrhyw un am unrhyw beth, boed y person yn hen neu'n 'pync', eisiau siarad am broblemau neu ddiddordebau, yn ddi-ffael mi fydda i'n gwrando ac yna mae'n rhaid i bawb fod yn ddistaw a gwrando arna i. Mi fydda i'n siarad yn gall, yn ysgafn, yn naturiol ac yn ofalus ac yna fydd pawb yn cael eu syfrdannu oherwydd fy mod wedi siarad mor dda. Breuddwyd. Breuddwyd na ddaw yn wirionedd?

Pam? Pam. O, pam. PAM na alla i siarad? Mae'n rhaid i mi gael siarad, mae'n rhaid i mi gael dweud rhywbeth yn reit sydyn neu mi fydda i'n chwythu fel llosgfynydd. Os na chaf i siarad y funud yma mi fydda i'n sgrechian cymaint mi fydd y ddaear yn rhwygo'n ddaul!

Mae'n rhaid i mi ddadgynhyrfu, does dim pwynt i hyn, mae'n rhaid i mi wynebu'r gwirionedd — ni alla i siarad.

Dwi'n siŵr fod yna lawer yn fy nghasau i oherwydd dwi'n eu brifo nhw. Weithiau mi fydda i'n gafael mewn rhywun ac yn gafael yn dynn ynddyn nhw neu'n crafu nhw neu hyd yn oed eu brathu nhw! Nid casineb neu greulondeb ydi o, dwi'm isio brifo neb! Dwi'n gneud oherwydd dwi'n ysu cymaint am gael siarad dwi'n gweld gafael mewn rhywun yn ffordd o gyfathrebu, o agosatrwydd. Pam na all neb ddeall hynny? Dwi'n ddiniwed, dwi'n ddi-



euog, dwi'm isio brifo neb!

Be 'di'r sŵn yna? Ma' rhywun yn dod yma. Pwy? O! Y Ddines sydd yna. Mae hi'n gwenu eto, y wên gysurus. O! dyna braf. Cysur. O'r blaen. Dwi'n teimlo fel o'r blaen. Dwi'n saff, yn gynnes, yn hapus! Ydi'r Ddines yn drist am na alla i siarad? Ydi hi'n ysu am i mi siarad? Mae hi'n siarad, 'Rhyw ddiwrnod, mi wnei di newid y byd'.

Sut, os na alla i siarad? Wnaiff neb fy nghlywed i, fydd pawb yn fy nhrin i'n dwp! Alla i ddim newid y byd, Ddines, alla i ddim!

Mae'n rhaid i mi ddweud wrthi. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthi fy mod i'n ei charu.

Reit!

Yn araf, yn bwylllog, yn ddoeth.

Mae rhywbeth yn dod! Rwy'n ei deimlo! Mae rhywbeth yn cosi. Fy llais?

Ydi fy llais i yna?

'MAM!'

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd**

CWESTIWN CYMRAEG? CODWCH Y FFÔN

'Dwi'n symud i Sir y Fflint. Sut alla i ffeindio allan lle mae'r ysgol Gymraeg leol?' 'Oes cyfieithiad Cymraeg swyddogol o "matched funding"?' 'Faint o bobl Sir Benfro sy'n gallu siarad Cymraeg?' Dyma'r math o gwestiynau mae nifer o bobl yn chwilio am ateb iddynt ac, mewn ymateb i'r galw am wybodaeth o'r fath, mae Llinell Gyswllt newydd ei sefydlu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w cynorthwyo.

Bydd y Llinell Gyswllt ar agor rhwng 10 a.m. a 12.30 p.m. a 1.30 p.m. a 3.30 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener a galwadau iddi ar raddfa galwad lleol i'r galwr. Mae croeso i unrhyw un sydd angen unrhyw fath o wybodaeth ar fater yn ymwneud â'r iaith gysylltu ar 0845 6076070 os am gymorth i ddatrys penbleth Gymraeg! Bydd galwyr naill ai'n derbyn

ateb yn y fan a'r lle neu'n derbyn cyngor am ba gyrff ddylent gysylltu â hwy am wybodaeth ynglyn â'u ymholiad.

Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd sydd wedi tendro'n llwyddiannus am y gwaith o redeg y Llinell Gyswllt, a bydd y gwasanaeth ar gael o 5 Ionawr ymlaen.

Yn ôl Cadeirydd y Bwrdd, yr Arglwydd Elis-Thomas: 'Gyda'r cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf y twf aruthrol mewn niferoedd y bobl sy'n dysgu'r iaith, a'r diddordeb cynyddol mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hi, mae yna lu o gwestiynau sydd angen eu hateb. Mae rhywbeth bach yn poeni pawb a diben y Llinell Gyswllt yw cynnig cymorth ymarferol gyda phethau pob-dydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg.'

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

YSGOL FEITHRIN. Cynhelir Bore Coffi a Ffair Sborion er budd Ysgol Feithrin Llanberis yn Y Ganolfan yn Llanberis am 10 o'r gloch, ddydd Mercher, Chwefror 11. Croeso cynnes i bawb.

PARTI NADOLIG. Trefnwyd parti Nadolig i blant y pentref gan Bwyllgor Carnifal Nant Peris brynhawn Sul, Rhagfyr 14. Cynhaliwyd y parti yn Nhy'n Llan. Cafodd y plant lond eu boliau o fwyd, ac fe ddaeth Siôn Corn ag anrheg bach iddynt i gyd. Diolch i Gwenda a Lola am drefu'r 'grotto'. Diolch hefyd i'r pwyllgor am yr holl drefniadau.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i Mrs Brenda Roberts, Ystrad a fu yn yr ysbyty am sbel cyn y Nadolig.

PEN-BLWYDD HAPUS. Roedd yn dda gweld un o blant y Nant wedi dod adref i ddathlu ei ben-blwydd ddechrau'r flwyddyn. Mae Gwynfryn Griffiths, a fagwyd yn Bens, yn byw ers tro yn yr Almaen. Trefnodd ei deulu barti ar ei gyfer yn Nhy'n Llan, nos Sadwrn, Ionawr 10fed, i ddathlu ei ben-blwydd yn 60 mlwydd oed. Daeth ei deulu yn cynnwys ei chwiorydd Margaret ac Eurwen a'i frawd Tom a nifer o'i gyfeillion i ddymuno pen-blwydd hapus iddo. Daeth aelodau Côr Meibion Dyffryn Peris yno i ganu hefyd.

BET. Roedd un o ddefaid y Nant yn



S'neb yn rhy hen i gael presant Siôn Corn. Mae'n amlwg bod David Ellis, 5 Nant Ffynnon yn credu hynny beth bynnag.

arbennig ar gyfrif ei hoedran mawr. Ond bellach bu farw Bet, un o ddefaid teulu 5 Nant Ffynnon. Ai Bet oedd dafad hynaf yr ardal? Rhowch wybod i ni os gwyddoch am ddafad hyn na hi.

DIOLCH. Dymuna Gwynfryn Griffiths (Bens gynt) ddiolch i Gôr Meibion Dyffryn Peris, Emlyn Baylis, Alwen a Nowi Idan House a'i deulu a'i ffrindiau i gyd am noson wych pan oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed ar 10 Ionawr. Diolch yn fawr iawn.

ANTUR WAUNFAWR YN EHANGU CYNLLUN DODREFN

Flwyddyn ers ei sefydlu mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd wedi ail-lansio eu Cynllun Ailddefnyddio Dodrefn drwy agor Storfa Ddodrefn unwaith yr wythnos i gynnig dodrefn rhad i bobl sy'n ddi-waith neu ar incwm isel.

Cafodd y Cynllun Ailddefnyddio Dodrefn ei sefydlu yn Rhagfyr '96 gan Wasanaeth Ailgylchu Gwynedd sy'n adran o Antur Waunfawr, er mwyn cyflenwi dodrefn am ddim i bobl ifanc digartref yr ardal oedd yn gleientau i GISDA a'r Gwasanethau Cymdeithasol. Fe'i sefydlwyd gydag arian gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol, ac yn ystod y flwyddyn cafodd 211 o eitemau o ddodrefn eu cyflenwi i gwsmeriaid.

Ym 1998 bwriedir ehangu'r cynllun drwy agor Storfa Ddodrefn i'r cyhoedd unwaith yr wythnos. Bydd y Storfa ar agor bob dydd Mercher o'r Ganolfan Ailgylchu ym Mangor i bobl mewn angen ddod i weld y dodrefn sydd ar gael.

Fe godir tâl bychan am y dodrefn er mwyn cyfrannu tuag at y gost o redeg y cynllun. Yn ogystal â dodrefn, gwerthir nwyddau trydanol hefyd megis pobtai, oergelloedd a pheiriannau golchi am bris rhad.

Bydd y Storfa Ddodrefn ar agor yn Depo'r West End bob dydd Mercher o 10 tan 3. Gofynnir i gwsmeriaid ddangos prawf eu bod yn ddi-waith neu ar incwm isel cyn allent brynu'r dodrefn, neu ddangos llythyr wedi'i gyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, GISDA neu Gymorth i Ferched.

Wrth gwrs, ni all y Cynllun Dodrefn lwyddo oni bai am gyfraniadau o ddodrefn gan y cyhoedd. Gofynnir i bobl gysylltu â Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd os ydynt eisiau cael gwared o ddodrefn sydd mewn cyflwr da neu foddhaol. Trefnir

i'w casglu yn rhad ac am ddim. Yn anffodus NI ELLIR derbyn gwelyau neu soffas heb dystysgrif tân. Mae'r dodrefn yn cael eu trin a'u trwsio fel bo'r angen gan weithwyr Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd, sy'n cynnwys gweithwyr ag anabledd dysgu.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn casglu twls llaw i'w hanfon i'r Trydydd Byd. Maent yn chwilio yn arbennig am dwls seiri, twls gof a thwls adeiladu. Byddant yn cael eu trwsio a'u hanfon i grefftwyd ac adeiladwyr yn Affrica a chanolbarth America.

Mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i gynnig ychydig o'u hamser i drin y dodrefn sy'n dod i mewn i'r Storfa. Gallent fod â chefnidir neu brofiad o waith coed, peintio a DIY.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn gwirfoddoli, neu mewn cyfrannu dodrefn neu dwls, neu os am ragor o fanylion, ffoniwch (01248) 355112.

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:
(01286) 675754

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

BEICIO NODDEDIG. Yn rhifyn diwethf yr Eco roedd yna lun o griw o ferched Llanberis yn barod i gychwyn ar daith beic. Yn anffodus roedd y stori wedi mynd ar goll! Roedd y pump — Gaynor, Tracey, Mo, Sheila a Karen — wedi trefnu taith nodedig o Lanberis i Gaernarfon i gasglu arian at Gronfa Asthma Meddygfa Llanberis. Mae'r merched, ynghyd â staff a meddygon y Feddygfa, yn ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth. Llongyfarchiadau i'r pump am gyrraedd yn saff — mwy na ellid dweud am y stori mae'n debygl!

PLAS PEN GWAITH. Dymuna y trigolion ddiolch o galon i'r staff am drefnu parti mawr nos Sadwrn cyn y Nadolig ac hefyd nos Calan. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Cafwyd cinio Nadolig bendigedig hefyd er bod torriad yn y trydan. Diolch i Parti Lleisiau Lliwedd; Côr Meibion Dyffryn Peris; Parti Gweunydd; Alun, Wmffra, Meira a Katie a'r criw a ddaeth i'n diddanu dros gyfnod y gwyliau.

Dymunwn pen-blwydd hapus i Mrs Rose Williams, Mr Dafydd John Thomas a Mrs Marie Pritchard.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Rose Williams ar ôl iddi ddod gartref o Ysbyty Gwynedd ac hefyd Mr Booth sydd yn gwella yn Ysbyty Eryri. Mae'r trigolion a'r staff am ddiolch i Mr Gareth Jones, Dôl Eilian am helpu Siôn Corn a rhannu anrhegion ddiwrnod Nadolig ac hefyd i Beryl Jones, un o drigolion y cartref, am werthu'r tocynnau raffl.

Diolch yn fawr i'r staff am bopeth a wnaethant inni yn ystod gwyliau'r Nadolig.

ENILLWYR CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN mis Ionawr — £25: Mrs E. Jones, Delfryn (120); £25: Mrs R. Jones, Tu Ucha'r Ffordd (220); £15: Mrs B. Roberts, Stryd Goodman (84); £10: Mrs J. O'Donnell, Grove House (19); £5: Mrs C. Jones, 1 Bro Glyder, Nant Peris (81).

CYMDEITHAS EGLWYSI ST. PERIS A ST. PADARN. Trwy garedigrwydd y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, a Mrs Hughes cynhaliwyd y cyfarfod misol yn y Rheithordy nos Iau, Ionawr 8fed, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Er fod y tywydd yn affafriol iawn daeth nifer dda o'r

aelodau ynghyd a dymunwyd blwyddyn newydd dda iddynt gan y Llywydd. Agorwyd y cyfarfod gyda Colect yr Ystwyll a gweddïau dan arweiniad Mrs Betty Humphreys, a chroesawyd y gwesteion, y Parchg a Mrs Robert Townsend.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn a chyda chymorth sleidiau cafwyd cip ar fywyd trigolion yr Ukrain a oedd, tan yn ddiweddar, yn rhan o'r Undeb Sofietaidd. Er fod y trigolion eu hunain ar y cyfan yn cyfrif eu hunain yn byw mewn gwlad rydd ac er eu rhaniad oddi wrth grym y comiwnyddion, mae gwahaniaeth mawr yn eu bywydau hwy i'n bywydau ni yma yn y gorllewin.

Cafwyd y baned arferol a'r raffl, rhoddedig gan Mrs Nancy E. Jones a Mrs Olwena Morris, a diolchwyd iddynt hwy ac i'r siaradwyr gan Mrs Clara Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Ann Parry-Jones.

YSGOL BRYNREFAIL. Hoffai disgyblion cheched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fwr i'r siopau a'r busnesau canlynol am gyfrannu at eu parti llwyddiannus ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar: Gwesty'r Victoria; Spar; Outside; Arthur's Cafe; Cigydd Allsup; Gwesty Gwynedd; Joe Brown; Gwesty Padarn Lake; Pete's Eats; Pet Shop; Formag; Clôn; Becws Eryri; Gary Reynolds; Fferm Fêl yr Wyddfa; Celf y Copaon; Siop Wlân; Glyn Afon; Siop Carol.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Trefnwyd cyfarfod mis Ionawr o'r Gymdeithas Undebol yng Nghapel Coch gan Mr Bert Parry. Cafwyd noson amrywiol a diddorol. Bu Mr Gareth Jones yn rhoi tipyn o hanes y canwr poblogaidd, David Lloyd. Bu Gareth yn cymryd rhan mewn ffilm am fywyd y tenor poblogaidd a ddarlledir ar S4C cyn bo hir. Bu Mr John H. Hughes yn sôn am ddau Griffith Jones oedd a chysylltiad â Llanberis a'r Capel Coch. A chafwyd dau emyn gan Mr Cledwyn Roberts, gyda Mrs Ann Pritchard yn cyfeilio iddo. Aelodau o Gwmni Drama Llanberis fydd yn ein diddori yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas, am 7 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 3ydd.

CYNGOR CYMDEITHAS. Achoswyd difrod i'r gofologofn gan y storm yn ddiweddar. Mae'r Cyngor yn

awyddus i gael barn y pentrefwyr lle dylid ailgodi'r golofn. Trefnwyd bod Clerc a chynrychiolydd o'r Cyngor yn Angorfa, ddydd Marth, Chwefror 3, er mwyn cyfarfod ag unrhyw un sydd â barn ar y mater. Dowch yno rhwng 10 a 12 o'r gloch y bore, neu rhwng 6 ac 8 o'r gloch yr hwyr. Os na allwch ddod yno'r diwrnod hwnnw mae croeso i chi ysgrifennu at y Clerc erbyn Chwefror 13, yn 7 Bryn Moelyn, Llanrug.

BRIGÂD SANT IOAN. Hoffai rhieni plant y 'Badger Leader' ddiolch o galon am y parti Nadolig rhagorol a ddarparwyd ar gyfer y plant. Diolch hefyd am drefnu ymweliad Santa ac i hogiau'r Frigâd Dàn am eu cymorth. **YR YSGOL FEITHRIN.** Enillwyr Raffl Nadolig 1997 oedd — 1, Nia Owen, Llanberis; 2, Ceinwen Williams, Llanberis; 3, Pat Hughes; 4, Gwenfair Wakeham; 5, 872369 (Sylvia); 6, Sharon Jones; 7, John Hughes; 8, Alan Pritchard; 9, Arwel Hughes; 10, Nain Jones.

Cynhelir Bore Coffi a Ffair Sborion er budd Ysgol Feithrin Llanberis yn Y Ganolfan, Llanberis am 10 o'r gloch dydd Mercher, Chwefror 11. Croeso cynnes i bawb.

Y BAND. Mae'n dda deall bod bwriad i geisio ailsefydlu band yn Llanberis. Dymunwn yn dda i'r ymdrech ac yn arbennig i Owain Tudur, Nant Peris sy'n arwain yr hyfforddiant. Diolch i Owain am fentro ac am fwrw i'r gwaith. Mae'r ymarferion ar gyfer y plant wedi dechrau, a chynhelir hwy yn Y Ganolfan am 5 o'r gloch bob nos Fercher. Pob llwyddiant i'r gwaith.

CAPEL COCH. Diolch i'r mamau a'r neiniau a ddarparodd barti Nadolig y Cyfarfod Plant ddydd Mawrth, Rhagfyr 16. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at barti Nadolig yr Ysgol Sul y diwrnod cynt, ac i Siôn Corn am alw heibio. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul brynhawn Sul, Rhagfyr 21, a rhoddwyd y casgliad at yr apêl 'Law yn Llaw'. Diolch i'r athrawon am lunio gwasanaeth ardderchog eleni eto, ac am eu gwaith trwy'r flwyddyn. Mae'r Ysgol Sul a'r Cyfarfod Plant yn cyfarfod fel arfer y tymor hwn eto. Cynhelir yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch a chynhelir y Cyfarfod Plant ar brynhawn Mawrth yn union wedi amser ysgol.

THEATR FACH GORFFWYSFA. Cynhaliwyd noson amrywiol o ganu carolau, eitemau unigol ac eitemau gan Lleisiau Lliwedd yn y Theatr Fach, nos Iau, Rhagfyr 18fed. Trefnwyd cawl ar gyfer y gynulleidfa gan y Dr Gwyn Williams ac fe dynnwyd enwau enillwyr y 'Dyfal Dyddiad' yn ystod yr ysbaid. Oherwydd fod cyngerdd arall wedi'i drefnu yn y pentref ar yr un noson fe amharwyd ar y nifer oedd yn bresennol. Er mwyn rhoi cefnogaeth i'r holl o'r dathlu a gynhelir cyn y Nadolig, fe fydd rhaid i drefnwyr y nosweithiau hyn gysylltu â'i gilydd neu â 'Dyddiadur yr Eco' er mwyn sicrhau na fydd gwrthdaro rhwng dau gyngerdd y flwyddyn nesaf. Enillwyr y gystadleuaeth 'Dyfal Dyddiad' a drefnwyd gan Gwmni Drama Llanberis oedd: £20: Gloria Pitts, 5 Glanrafon; £10: Cheryl Owen, Crud yr Awel; £5: Elwyn Morris, Oakfield.

YR URDD. Bu dau dîm yn cynrychioli'r Adran mewn cystadleuaeth pêl-droed pump-yr-ochr ym Mangor fore Sadwrn, Ionawr 10.

YR AELWYD. Roedd tîm o'r Aelwyd

yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Pwl dan 15 oed yr Urdd yng Nghaernarfon nos Fercher, Ionawr 21. Llwyddwyd i gyrraedd y rownd derfynol cyn colli yn erbyn tîm o Aelwyd Bontnewydd.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Margaret Hughes, Penros, 2 Rhos y Faenol ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn. Diolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion a'r cardiau er cof amdani. Diolch i staff Meddygfa Llanberis ac Ysbyty Gwynedd am eu gofal, i'r Parchg Gwynfor Williams a'r Parchg John Pritchard am eu gwasanaeth, ac i'r ymgymerwr E. W. Pritchard am y trefniadau.

Dymuna Miss Jennie May Pritchard, Plas Pen Gwaith ddiolch yn fawr i bawb a fu yn ymweld â hi ac am yr anrhegion a dderbyniodd yn ystod Gŵyl y Nadolig. Diolch yn fawr a blwyddyn newydd dda.

Dymuna Mrs Grace Williams, Plas Pen Gwaith ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod Gŵyl y Nadolig. Diolch yn fawr a blwyddyn newydd dda i bawb.

Dymuna Catherine a John, 6 'Rallt Goch' ddiolch i'r plant a'r teulu a'u ffrindiau am y blodau, anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem ar y 7fed o Ragfyr.

Dymuna Sharon Griffiths, Bryn Teg ddiolch i'w thelu a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch.

Dymuna Elisabeth Roberts, gynt o 10 Stryd Turner ddiolch o galon i bawb a ddanfonodd gardiau ac anrhegion ati dros y Nadolig; a dymuna flwyddyn newydd dda i bawb.

Dymuna Buddug Wakeham, 8 Stryd Newton ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, blodau, ymweliadau a'r galwadau ffon tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon Llanberis a staff Ward Hebog. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Beryl a Gordon Owen, 46 Maes Padarn ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt tra yn yr ysbyty cyn y Nadolig. Diolch am y cardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch i staff Wardiau Aran a Glyder am eu gofal a'u caredigrwydd bob amser.

Dymuna Susie Roberts, 23 Dôl Eilian ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

YSGOL FEITHRIN LLANBERIS

Bore Coffi a Ffair Sborion

YN Y GANOLFAN
DYDD MERCHER, 11 CHWEFOR
AM 10 O'R GLOCH
CROESO CYNNES I BAWB

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Hanner canrif o gadw siop



Cledwyn Parry y tu allan i Glan-y-don yn fuan wedi iddo agor ei siop yn 1946.

Ar y 15fed o Ragfyr 1997 daeth cyfnod helaeth o wasanaeth gan un teulu i ardal Llanberis i ben wrth i siop ffrwythau Glan-y-don (Siop Cledwyn) newid dwylo.

Bu'r siop yn nwylo'r teulu am dros hanner can mlynedd, o 1946, pan ddechreuodd Cledwyn Parry y busnes, tan yn ddiweddar pan drosglwyddwyd y busnes gan ferch Mr Parry, Valerie, i'r perchnogion newydd, Mr a Mrs Smith.

Siop yn ymwneud â Chymorth Rhyfel gan dderbyn hen bapur a gwydr er mwyn ei ailgylchu ac arbed costau mewnforio a chynhyrchu papur a gwydr o'r newydd oedd Glan-y-don yn ystod y Rhyfel. Cyn y siop ailgylchu, siop crydd oedd yno, gyda Crydd Bach y Waun yn berchennog arni.

Wedi i Cledwyn orffen yn y Rhyfel aeth i'r chwarel ond wedi ychydig amser yno penderfynodd mai ym myd masnach oedd ei ddyfodol. Gyda'i arian 'de-mob' — tua thrigain punt — a chymorth ei fam, penderfynodd Cledwyn agor siop ffrwythau yn

Glan-y-don. Yn fuan wedyn prynodd fan fechan a dechreuodd werthu ei nwyddau o ddrws i ddrws i bobl Nant Peris, Llanberis, Cwm-y-glo, Llanrug, Deirorwig a'r Fachwen. Dyna fu'r drefn am bron i ddeugain mlynedd wedyn gyda Cledwyn ar y fan a'i fam yn rhedeg y siop. Dyna fu'r drefn yn ddiweddarach hefyd gyda'i briod, Betty, ac yna ei ferch, Valerie, yn rhedeg y siop. Wedi marwolaeth ei wraig yn 1985 rhoddodd Cledwyn orau i'w drafaelio bron i gyd a rhoi'r gwaith o redeg y siop yn nwylo Valerie o 1986 ymlaen. Ond daliodd i helpu Valerie ers hynny tan i'r siop gael ei gwerthu i'r perchnogion newydd.

Bu cryn newid dros y blyneddau yn siopau Stryd Fawr Llanberis. Yn y cyfnod cynnar yn y pentref gwerthwyd popeth oedd ei angen ar deulu, o welyau i hetiau merched. Doedd hi ddim mor hawdd yr adeg honno i deulu deithio nôl ac ymlen i Gaernarfon, Bangor neu ymhellach.

Dwy o hen siopau eraill Llanberis



Siop Star . . . lle mae siop 'O Law i Law' heddiw.



Siop Brooke House . . . lle mae Siop Grug heddiw. Sylwch ar hysbysfwrdd yr Heddlu y tu allan i Swyddfa'r Heddlu y drws nesaf.

Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Llanbedr Pont Steffan a'r Fro, 1999

I ddathlu fod yr Eisteddfod yn dod i'r fro mae plât arbennig wedi'i gynllunio gan yr artist enwog Mary Lloyd Jones o Aberbanc. Mae'n blât lliwgar dros ben yn dangos gwyrddni'r tir ac yn darlunio Pont Steffan yn croesi Afon Teifi. Gwelir eogiaid yn neidio o'r dŵr ac mae'r barcud coch yn hedfan uwchben. Mae pob plât wedi ei rifo a

disgwylir y bydd galw mawr amdano. Dylai fod yn rhywbeth i'w drysori.

Os ydych yn dymuno archebu'r plât gyda rhif penodol, dylech gysylltu ar unwaith â Mary Davies (01570) 480015. Maen nhw'n costio £35 yr un ac yn anrheg safonol ar gyfer unrhyw achlysur.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati



BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646

YMDDIHEURIAD

Hoffai'r

Trefnydd Hysbysebion
ymddiheuro i

Eurwyn Williams,
Llwyncoed, Cwm-y-glo
am fethu â chynnwys
ei hysbyseb 'Cyfarchion y
Nadolig i ddarllenwyr
yr Eco' am yr ail
flwyddyn yn olynol. Sori!

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI
ELECTRICAL
FRON
DEINIOLLEN

★ AIL WEIRIO
★ CAWODYDD
★ GOLEUADAU DIOGELWCH
★ LARWM LLADRON
★ CYNNAL A CHADW

(01286) 870858 SYMUDOL
0467 774 326

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED. Y mae enw'r Ysgol a'r Ganolfan i'w weld yn blaen ar wal yr ysgol. Cafodd ei osod ar gychwyn 1998. Bu rhai o blant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y rhaglen deledu Uned 5 ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad. Dymunir diolch i'r Cyfeillion ac i bawb a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau yn ystod 1997. Bydd hanner elw'r Noson Garolau yn cael ei gyflwyno i Adran Bentref yr Urdd. 21ain. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siôn Roberts, Bryn Tirion, a Llŷr Tegai, Bryn Eglwys ar ddathlu eu pen-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Dymuna'r ddau ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Daeth cynulliad da i'r gwasanaeth fore Sul, Rhagfyr 20fed. Fe fwynhaodd pawb y stori fach hyfryd am y 'Llwynog coch a'r oen bach gwyn'. Mwynhaodd y plant y profiad o gyflwyno'r stori hefyd. Am eu perfformiad clodwiw daeth neb llai na Sant y Plant, Siôn Corn, i'w gweld a'u anrhegu. Gwnaed casgliad o £37 tuag at Gronfa Cinio Nadolig 1998 i henoed y pentref. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafodd pawb fins pei Nadoligaidd i fynd adref. Diolchir i Bronwen Jones am wneud yr holl mins peis.

PARTI NADOLIG YR YSGOLION SUL. Prawn Llun, Rhagfyr 21ain, roedd gwledd yn disgwyl y plant yn neuadd Eglwys Santes Helen, a diolchir i bawb a gyfrannodd at y parti hwn. un a fu'n cyfrannu'n flynyddol at barti'r plant oedd y diweddar Eileen Thomas, Bron y Gaer — ac eto eleni roedd wedi anfon rhodd ariannol hael. Anfonir ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu oll yn eu colled o un mor annwyl a charedig. Fe ddaeth Siôn Corn i'n gweld a chafodd tua 50 o blant anrhegion ganddo.

GWELLHAD. Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref a dymunir adferiad iechyd buan i chwi oll. Ein cofion annwyl at Mr Ken Mowll, 19 Bryntirion wedi'i driniaeth yn yr ysbyty.

GENEDIGAETH. Llongyarchiadau i Carolyn a Martin, Bryn Tirion ar enedigaeth merch fach, Tania, chwaer fach i Marc ac wyres fach i

Gwenda a Victor. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

PWYLLGOR NEUADD. Nos Lun, Rhagfyr 21ain, bu criw o garolwyr o gwmpas yn canu carolau. Er yr oerni y tu allan roedd y croeso cynnes ar aelwydydd rhai cyfeillion yn hyfryd a llawen. Gwnaed casgliad sylweddol o £45. Diolch i bawb.

Diolch i Phyllis Elis am ofalu am gatalogau'r Webb Ivory unwaith eto, a diolch i bawb a gefnogodd. Disgo Dwynwen fu gweithgaredd lonawr a hynny i bob oedran. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at fwyniant y noson.

Tynnwyd Clwb Cant mis lonawr a'r enillwyr oedd: 1af, Dylan Jones, Meillionydd; 2il, Lizzie Evans, Penygroes; 3ydd, Gwilym Roberts, Weirglodd Goch. Daeth yn amser i adnewyddu'r aelodaeth, sef £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am ymaelodi a sicrhau swm misol at y costau. Y mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno, cysyllter ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu'r trysorydd, Dafydd Williams, ffôn 871754. Diolchir hefyd am bob cefnogaeth i amrywiol weithgareddau 1997 a gobeithir y cïer yr un brwdfrydedd yn 1998.

COLLI ANWYLIAD. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, gwraig annwyl y diweddar lorwerth Thomas. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r meibion Hugh a Robin a'r teulu, ei brawd Elis Hughes a'r teulu, Gwynfor, Jean a'r teulu, a'r cysylltiadau oll. Fe'i cofir fel un addfwyn a charedig ac un fawr ei gofal ao'i theulu, aelod ffyddlon o gapel Bosra ac un a gefnogodd holl weithgareddau'r pentref.

Bu'r Wyl yn un o dristwch a hiraeth mawr i deulu'r Winllan eleni. Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, yn sydyn a dirybudd, bu farw tad Eifion, yng Ngharno. Tri diwrnod yn ddiweddarach, a hynny ar ddydd Nadolig, bu farw Huw Hardin ac yntau ond 19 oed. Roedd ef yn nai i Eifion. Anfonir y cydymdeimlad llwyr i chwi o golli tad, taid, nai a chefneder. Rydym oll yn meddwl amdanoch yn eich trallod.

ADRAN BENTREF YR URDD. Nos Fawrth, lonawr 20fed, mwynhawyd gweithgareddau Noson Dwynwen

gydag Ann Ifans. Cafwyd hanes Santes y Cariadon a chafodd pob un gyfle i gynllunio a gwneud cerdyn i'w hoff berson a chyfle i wneud addurniadau rhamantus ar gyfer Disgo Dwynwen.

Nos Fawrth, lonawr 27ain, bydd dawnasio llinell a bydd hwyl a mwynhad ar y symud. Y mae paratodau ar y gweill ar gyfer yr Eisteddfod Gylch yr Urdd — pob hwyl ar y dysgu ac ar wneud y gwahanol weithgareddau. Cofier na fydd cyfarfod yn ystod hanner tymor, sef dydd Mawrth, Chwefror 17eg.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Lizzie Evans, Meirionfa, Penygroes ddiolch i nifer fawr o ffrindiau o fro'r Eco am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar ddydd Nadolig. Diolchir i'r Parchg Tegid Roberts am y dymuniadau da yn ystod y gwasanaeth fore'r Nadolig.

TAITH BRESWYL — HAF 1998. Yr

wyf yn trefnu taith breswyl i aelodau Eglwys Crist, Llandinorwig ac Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun yn Lincoln ac Efrog o ddydd Llun y 10fed hyd at ddydd lau y 14eg o fis Awst eleni. Byddwn yn aros yng ngwesty'r Grand yn ninas Lincoln. Ar y ffordd i Lincoln byddwn yn galw ym mhentref Bradwell, Swydd Derby, i ymweld â rhai rhai o'r ffynhonnau addumedig yno. Tra yn Lincoln bydd cyfle i ymweld a'r castell lle cedwir yr enwog Magna Carta, a'r Gadeirlan. Bydd cyfle i siopa hefyd ac ymweld ag un neu ddau o atyniadau eraill yn ardal y Fens, a chofeb y Dywysoges Gwenllïan yn Sempringham. Bydd ymweliad hefyd â Chaer Efrog am ddiwrnod llawn ac wrth ddychwelyd i Gymru byddwn yn galw heibio Althorp, lle claddwyd y Dywysoges Diana. Cost y cyfan yw £160. Am fanylion pellach cysyllter â'r Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug (ffôn: 01286 870760).

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn bryderus ynglŷn â lleoliad ac hefyd faint o amser a gymerai ambiwlans i gyrraedd ardaloedd gwledig fel Dinorwig a Fachwen mewn achosion brys. Cytunwyd i wneud ymholiadau gyda'r Awdurdod Iechyd.

Hysbyswyd y Cyngor na fedr meddygon Llanberis wneud trefniadau i gael dau feddyg yn gweithio yr un pryd yn meddygfa Deiniolen. Roedd y Cyngor wedi derbyn cwynion fod rhai cleifion yn methu a chael gweld y meddyg yn Neiniolen ar adegau prysur.

Cafwyd adroddiad gan yr heddlu yn datgan fod un gyrrwr wedi cael ei reportio ac wyth arall wedi cael eu rhybuddio am oryrru trwy bentref Deiniolen.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau safleoedd i gasglu defnyddiau i'w hailgylchu mewn

gwahanol bentrefi yn y plwyf. Mae ambell safle sy'n gwbl addas wedi cael ei awgrymu ond nid yw'r trigolion sy'n byw gerllaw y safleoedd hynny yn awyddus i gael y biniau casglu yn agos i'w tai.

Yn dilyn ymddiswyddiad Glyn Tomos wedi blynyddoedd o wasanaeth fel Cynghorydd dros ward Dinorwig fe gyfetholwyd Phyllip Jones, Tŷ Capel Sardis i lenwi'r sedd.

Hysbyswyd fod perchnogion tiroedd Cae Meta, Penrhyn a Thyddyn Berth wedi derbyn rhybudd swyddogol gan Gyngor Gwynedd i symud gwifrau pigog a ffensys oddi ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi eu tiroedd.

Disgwylir swyddog o Tai Eryri i'r cyfarfod nesa o'r Cyngor — a gynhelir yn Ysgol Penisa'rwaun ar 17 Mawrth — i drafod eu polisi lleol.



CYFLE BUSNES

'Forever Living Products'


100% ALOE VERA

ER LLES EICH IECHYD

Ffoniwch: (01286) 830609



Cig Bethel



Prisiau rhesymol am gig o safon.

Cymharwch y prisiau hyn â rhai'r siopau mawr

BİFF (y pwys)	PORC (y pwys)
Ochr Uchaf Gyfan£2.50	Coesau£1.45
Rymp Cyfan£2.95	Chops£1.80
Syrloin Cyfan£4.00	Tenderloin£3.50
Steciau Syrloin£4.50	
Steciau Rymp£2.95	
Steciau 'T-bone'£4.00	
Asen Flaen£2.10	
Biff Stiwiw£1.90	
Mins Stêc£1.50	

CIG OEN

Oen cyfan£1.25
Coesau£2.50
Yswyddau£1.50
Chops£2.50
Mins Oen£1.60

CYW IÂR

Cyfan Ffres£0.95
Darnau Brest£2.35

GAMON

Steciau£2.10

BECYN

Cefn Gorau£2.20
Canol Gorau£1.90
Coler£1.50
Ham wedi'i Rostio£3.30
Sosef Ffres£1.50

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Mrs Elizabeth Griffith ar achlysur cyflwyno llyfr o eiddo ei diweddar gefnder, Mr Tom Jones, i Ysgol Llanrug. Bu Mr Tom Jones yn ddirprwy yn yr ysgol hyd ei ymddeoliad ar ddechrau'r wythdegau. Yn y llun gwelir Mrs Griffith gyda Mr Robin Williams, prifathro'r ysgol, Mr Ieuan Wyn a rhai o blant blwyddyn 6.

PEN-BLWYDD HAPUS. Dymuniadau da a phen-blwydd hapus i Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan ar gyrraedd 98 mlwydd oed ar 21 Ionawr — oddi wrth trigolion Hafan Elan.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan ac anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Bet Jones, Lyndale sydd wedi mynd yn ôl i'r ysbyty.

Y SEFYDLIAD COFFA. Bydd pwyllgor y Sefydliad Coffa yn cyfarfod **nos Fercher, 4ydd Chwefror am 7.30.** Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol y Sefydliad.

PLAID CYMRU. Nos Fawrth, Ionawr 13, ym Mhenisa'rwaun, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Iwan Gruffydd, priathro Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda ar ei daid, y cymeriad lliwgar a'r llenor, Iwan Gruffydd o Langristiolus, Ynys Môn. Roedd yn adnabyddus fel storïwr a dramodydd cyn cyhoeddi ei ddwy gyfrol o hunangofiant, *Gŵr o Baradwys* a *Tân yn y Siambar*, sy'n cael eu cyfrif yn bortread lliwgar a ffraeth o fywyd gwerin amaethyddol ardal Paradwys yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Cafwyd darlenniadau hynod o ddifyr gan y darlithydd, ac ar dâp, o rai o'i storïau. Diolchwyd i'r darlithydd am noson hwyliog gan y Llywydd, Miss Phyllis Ellis. Enillydd raffl y noson oedd Einir Gwyn.

Enillwyr gwobrau'r Clwb Cant:

Rhagfyr — 1, Olwen Llywelyn; 2, Arwel Jones. Ionawr — 1, Gwyndaf Jones; 2, John Roberts.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn hwyrach nag arfer eleni, sef nos Iau, Mawrth 19, gydag Aelod Seneddol Meirionydd-Nant Conwy, Elfyn Llwyd, yn ŵr gwadd. **CLYCHAU'R GRUG.** I ddathlu'r Nadolig a'r flwyddyn newydd bu'r genod yng Ngwesty Eryl Môr, Bangor i fwynhau bwffe hyfryd. Diolchir i Carys am wneud y trefniadau. Y mae rhaglen ddiffrwyd wedi'i threfnu ac mae pawb yn brysur yn ceisio eu gorau glas i ddysgu caneuon newydd ar gyfer y gwahanol wahoddiadau.

MERCHED Y WAWR. Dymunwyd blwyddyn newydd dda i bawb gan y Llywydd, Bethanne Williams. Cydymdeimlwyd yn ddwys â theulu'r ddiweddar Eileen Thomas, Penisa'rwaun, un a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen ers iddi symud i'r fro. Cydymdeimlwyd ag Eryl Roberts a'r teulu yn eu colled o golli mam annwyl a thyner.

Nos Wener, Ebrill 24ain, cynhelir Noson Werin yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Cyflwynir Cwpan i gangen Llanrug am y Llyfr Lloffion.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, Mai 9fed, yn Neuadd J.P., Bangor. Y thema fydd 'Geiriau Cân Merched y Wawr'. Bydd gwledd i'r llygaid a'r glust.

Derbyniwyd gair o ddiolch gan Meira a Geraint Percy Jones. Bu'r ddau'n beicio 750 o filltiroedd yn Ffrainc. Cyfrannodd y gangen tuag at eu beicio nodedig at Multiple Sclerosis. Cynhelir distawrwydd nodedig gan Bwyllgor Anabl Arfon er mwyn cael cyfarpar cyfathrebu ac at Menter Fachwen. Bydd Beryl Thomas yn cynrychioli cangen Llanrug. Y mae aelodau wedi gwirfoddoli i helpu gyda'r caffî yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, Sadwrn, Mawrth 7fed. Bydd cyfraniadau at y bwyd yn dderbyniol gan unrhyw un.

Gwestai'r mis oedd y diategydd Carys Owen. Wedi gloddesta'r Nadolig roedd pawb yn falch o'r cynghorion. Diolchodd Margaret Parry iddi am noson hamddenol a chynhwysfawr i nifer o'r aelodau. **DIOLCHIAU.** Dymuna Beth, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i bawb am anrhegion a chardiau Nadolig. Diolch i Menter Fachwen am y tlws blodau ar fedd Len ac i bawb am yr arian a gyfranwyd at brynu'r blodau. Diolch i'r plant a'r teulu ac i bawb am eu caredigrwydd, yn enwedig staff wardiau Aran ac Alaw.

Dymuna Mr Llew Hughes, Hyfrydle, Cwm-y-glo, Eryl, Nerys a Berwyn ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Eluned Hughes. Derbyniwyd swm sylweddol o arian er cof amdani ac fe roddwyd rhoddion i Ysgol Gynradd Cwm-y-glo, Y Ganolfan Gymunedol, Capel Tabernacl ac i Gronfa Bws Mini Cartref Preswyl Penisa'rwaun. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs C. Jones-Evans, 3 Hafan Elan ddiolch o galon i Mrs Dilys Jones a Mrs Ellen Jones am eu cymorth a'i gofal ohonof ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hefyd diolch i'm cymdogion a ffrindiau am y cardiau hardd a'r dymuniadau da a dderbyniais.

Dymuna Mrs J. Jones, 15 Hafan Elan a thelu'r diweddar Henry Morris ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn am yr arian a dderbyniwyd tuag at Cartref Plas Mona, Llanfairpwll, lle ymgartrefodd Mr Morris am beth amser. Diolch hefyd i'r gweinyddesau am eu gofal caredig.

Dymuna Katie Jones, Foelas, Llanrug (Saron gynt), ddiolch yn fawr

iawn i bawb am yr holl gardiau Nadolig a'r anrhegion a dderbyniodd.

Hoffai disgyblion chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i'r siopau a'r busnesau canlynol am gyfrannu tuag at eu parti llwyddiannus ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar: Caffi Cefn Coed, Eryri Sea Angling Club, Garej Hafod, Cerrig Beddau, Arvon, Clwb Ieuencid Llanrug, Co-op, K. Roberts Transport, Spar, Wavell, Ysgol Gynradd Llanrug, Penbont, Siop Chips. Ond yn bennaf hoffai'r disgyblion ddiolch i Mr Harri Jones am eu helpu ac am yr holl hwyl a gafwyd tra'n siopa gydag efi! **GENEDIGAETH.** Llongyfarchiadau i Ellen a Tecwyn, 1 Caradog Place, Deiniolen ar enedigaeth mab, Gareth Wyn, brawd bach i Rhys Ellis ac ŵyr bach i Dick a Hefina, Llanrug a Neville a Dilys, Deiniolen. Dymunant ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r arian ac hefyd i Uned Mamolaeth Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Blwyddyn newydd arall wawriodd Rhoddwn groeso brwd i hon Gyda hyder a gobeithion A brwdfrydedd dan ein bron.

Profi'r gwin a'r wermod wnaethom Cyn dy eni di Plygu i'r drefn oedd rhaid yn ufudd Nid oedd dewis gennym ni.

Diolch am dy weld o'r newydd Gyda gobaith yn dy gôl Gyda sicrwydd diamheuol Na ddaw'r hen un byth yn ôl.

Dyna ydyw trefn rhagluniaeth Dyna fel mae'r rhod yn troi Ac mewn 'chydig bach o amser Byddi dithau wedi ffoi.

Addewidion wnawn o'r newydd Gwneud ein rhan beth bynnag ddaw Cofio ffrindiau, gwneud rhai newydd Gyda gwên a gwasgu llaw.

Ond yn bennaf rhoddwn ddiolch Am fendithion bach a mawr I'n Creawdwr a'n Gwaredwr Byth am gofio llwch y llawr. E. JONES, Y Bwthyn, Llanrug

CRYN OFYR SPILT MILC

Hoffai'r Trefnydd Hysbysebion ymddiheuro i Eurwyn Williams, Llefrith, Llyncoed, Cwm-y-glo am fethu â chynnwys ei hysbyseb 'Cyfarchion y Nadolig i ddarlennwyr yr Eco' am yr ail flwyddyn yn olynol. Sori!

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

LLYTHYR O'R 'MERICIA . . .

Box 67 Cambrio P.O.
Wisconsin
N. America
Feb 15th 1884

Anwyl frawd,

Y mae yn bur debyg y byddi yn edrych yn bur syn ar y llythyr hwn yn dilyn yr un blaenorol mor fuan o ran amser, a'r rheswm am hyn ydyw fy mod yn cael ar ddeall dy fod yn wael.

Cefais lythyr oddiwrth dewyrth Hugh, a Thomas yn fy hysbysu am hyn, ac ar y 12ed cyfisol derbynais un oddiwrth M. Kate yn hysbysu yn gyffelyb. Ond nid oedd hi yn rhoddi gwedd beryglys o gwbl ar dy afiechyd, yr hyn yr ydwyf innau yn fawr hydery.

Yr ydwyf yn mawr ddisgwyl ac yn mawr ddymuno y byddi wedi gwella yn bur dda erbyn y bydd yr epistol hwn wedi dy gyrhaeddyd. Ni fynwn er dim i ti orfod suffro llawer o'm hachos i achos yr wyf yn deall mai cael anwyd ddarfu i ti pan yn anfon y defaid fel yr oeddyt yn dweud yr hanes wrthyf ar ol yr amser hwnw. Yr hyn fydd yn fy synu innau yn fawr iawn yn aml fydd fy mod i wedi teimlo cyn lleidat oddiwrth fy iechyd pan yno wrth fod allan ar bob math o dywydd, yn enwedig yn y gauaf. Y mae yno le difai yn yr haf, ond am y gaeaf yno, byddwn yn teimlo mwy oddiwrth yr oerfel o lawer nag yn Wisconsin. Un peth arall a effeithiodd arnat, rwyf bron yn sicr, yn ychwanegol at yr anwyd a dderbynaiast, sef yr hen wagen yn y chwarel yna, os oeddyt yn debyg yn parhau gyda hi fel pan oeddwn i yna. Da ti paid byth a gafael yn y wagen dros i ti fod ar lai o gyflog.

Wel dyna ddigon hwyrach ar y pen yna, gobeithio y byddi yn teimlo megis cynt erbyn y byddi yn darllen hwn. Dyna ydi dymuniad dy frawd.

Yr oedd yn dda gennyf ddeall wrth ddarllen llythyr oddiwrth Mary Kate fod pawb eraill o'r teulu yn teimlo mor dda. Cefais lythyr doniol a da ryfeddol ganddi, fachgen. Yr oedd yn dweud eich hanes tua Capel Coch yna yn ddoniol dros ben, ac yn adgofio am y troion hwyliog a fuom yn ei gael lawer tro.

Yr wyf yn deall fod Evan yn myned i'r ysgol nos, ac fod hyn yn arwydd, meddai M.K. o baratoad i ymadael, ac y mae yn bur debyg ei bod yn deall Evan i'r dim. Yr wyf yn deall hefyd fod Morris ei brawd yn dal yn ffyddlon gyda'r harmonium o hyd. Well done Morris, fe ddaw

rhywbeth o ddiwydrwydd, caiff ei wobruo yn iawn rhyw dro.

Yr oedd yn dweud hefyd fod ar dewyrth eisiau rhywun i ffraco gydag ef yn yr hen gaban o dan y talcen mawr. Byddaf yn meddwl yn aml am y taeru gwyllt a fu rhyngom, ond yr hyn yr wyf yn ei obeithio, beth bynnag, na wel ef mo honof yno yn trigo, ond hwyrach y gwel fi rhywdro yn dod heibio iddo yno gan ei gyfarch ef yn y dull iankyddol hwnw, 'How goes he, Uncle?' Yr wyf wedi crybwyll ei enw ugeiniau o weithiau gyda hwn a llall yn y gymdogaeth. Llawer o rai yr oeddynt yn ei adwaen, a llawer nad oeddynt. Y mae yna lawer iawn o'r hen bobl yma, y rhai oeddynt yn adwaen fy Nhaid yn bur dda, ond heb adwaen y plant, ac yn synu yn arw fy mod i yn wyr i'r hen wr y Llan. Bydd llawer yn camgymryd, ac yn fy rhoddi yn fab y Llan fy hunain. Mi synat lawer pe gwelet gymaint o ddyddordeb mae pawb o'r perthynasau yn ei gael wrth edrych ar y darluniau sydd genyf o honoch. A dyddordeb y maent yn ei gael yn hanes y teulu.

Yr ydwyf wedi dod i adwaen llawer o'r teulu yn America wrth i hwn a llall son amdanynt h.y. dod i ddeall eu bod yn berthynasau o Bethesda, eraill o Beddgelert, a lliaws mawr eraill. Bydd gennyf ddefnydd llythyr i Nhaid i'w hysbysu am rai sydd yma, nad ydwyf wedi son amdanynt o gwbl.

Bum yr wythnos o'r blaen yn Cambria yn gwrandaw ar J. M. Pryse yn pregethu, ac yn darlitho yn erbyn amffyddiaeth. Y mae Mr Pryse yn un o'r Cymry dysgedigaf yn holl America. Nid ydyw ei olwg yn argyhoeddi un o hyn, ond yn wahanol i hyn, dyn bychan a gwan ei gorph, ond yn un cryf iawn o farn a meddwl. Fe allaw y cewch y fantais o'i glywed yna, achos ar ei daith o Nebraska i Gymru y mae, ac o Gymru drosodd i wlad Ganaan. Y mae wedi bod am 3 wythnos yn dadleu gyda'r anffyddiwr, a'i drechu yn hollol. Ac yn awr cafodd gynnig \$60 y noswaith am wythnos am wrthrychu un arall yn yr East, ond yr oedd wedi anfon ei gyhoeddiadau o'i flaen, ac yr oedd yn ddigon o ddyn i'w cyflawni. Y mae yn enedigol o Dredegar. Daeth drosodd yma pan yn blentyn, ac yr oedd yn 18 oed pan ddechreuodd ddysgu iaith ei fam. Y mae, neu yr oedd, yn weinidog gyda'r Saeson yn

Nebraska, yn nhref Wymore, sef tref marchnad Humphrey Closs.

Derbynais yr 'Herald' oddiyna, ac yr ydwyf wedi ei chwilio yn fras, a'r hyn wyf yn ei weled ynddi am Llanberis ydyw cyhoeddiad am briodas Gaynor Plas Coch. Yr oeddwn yn synu yn arw iawn clywed am yr anafwd yr oedd R. Jones, Ty Gwyn iddi. Druan o Bob Jones, buaswn yn tybied fod yr ymwybodaeth o dreulio oes gyda'i wraig yn ddigon o friw iddo. Ond faint mwy y pechod yr aeth iddo.

Yr ydwyf wedi derbyn y taflen gystadleuaeth ers wythnosau. Yr wyf yn canfod wrthi, ym mhob ystyr eich bod am gystadleuaeth dda, ac y bydd yno lawer iawn o ymgeiswyr, neu fe ddylai fod. Achos y peth cyntaf a ddylai pawb ei wneud fyddai edrych pa fath feirniad fydd yno, ac fel rheol, os bydd beirniad da, bydd llawer o ymgeiswyr. Ac mi ddylwn eich bod wedi bod yn hapus mewn dewis beirniad yna. Gobeithio fod Nhaid wedi mynd yn uwch beirniad na 'beirniad rhodd mam' y tro hwn, achos dipyn o anfri fyddai iddo fod mor isel a hyni wedi bod mor uchel a 'chadair y Llywydd', pryd oedd yn rhaid i'r beirniad ymostwng iddo. Mi rwyf yn sicr fod mam o'r un farn a minnau. Ac am Eliza, dylai hithau fod yn wyladwrs iawn yn y cychwyn yma os ydyw yn meddwl dringo yn y cyfeiriad o feirniad.

Beth ydych yn ei feddwl o'r darluniau a anfonais yna? Yr oedd Tom yn dweud mai efe fydd y cyntaf (yn ol pob golwg) o'r teulu a welwch drosodd yna. Y mae yn dweud yn gadarn iawn y daw drosodd pan y caiff ei ryddhau oddiwrth Dakota, h.y. gwerthu ei ffarm. Bu agos iddo

ei gwerthu eleni, ond y mae yn meddwl y caiff fwy o bris ymhen blwyddyn neu ddwy etto, ac os na welwch o yna, gallwch benderfyni, meddai, mai wedi cael gwraig y bydd, a good-bye i'r Hen Wlad wedyn.

Cofia wneud i Nhaid a Mam i dynu eu lluniau at y Spring yma, ac anfon rhai drosodd yma, ac i John Rowlands. Y maent yn fy nwrddio i yn anghyffredin na fuaswn wedi gwneud iddynt eu dynu cyn cychwyn.

A ydyw Lizzie John Ellis yn meddwl dod yma o ddifrif, yntau rhyw lolian y mae? Y mae Jemima wedi derbyn llythyr oddiwrth ei thad yn hysbysu hyn, ac y mae am chwilio am le iddi erbyn y daw. Pa un a'i Chicago ai Dakota y mae John P. Jones yn dod? Clywais enw y ddau le.

Wel y mae yn amser tyny at y terfyn, ac yn amser myned iddo fo, achos y mae yn hanner nos, ac felly terfynaf gan gofio atoch yn y modd mwyaf caredig fel teulu oll, a'r un modd derbyn dithau fy nghofion gorau, ynghyd a dymuniad o galon dy fod wedi llwyr wella erbyn hyn. Yr ydwyf dy anwyl frawd Owen.

Dywed wrth Mam, ac os bydd hi cystal ac os bydd ffasiwn beth ag i Lizzie John Ellis ddod yma, iddi anfon ychydig o de yr Hen Wlad i Betsy yma, achos bydd yn son yn aml mor dda fyddai te yr Hen Wlad. Nid ydyw te America ddim ond fel dwr. Dim ond ychydig iawn o liw arno, achos green ydyw. Hwyrach ei fod yn llawn iachach felly hefyd na bod yn rhy gryf.

A diwedd y gan ydoedd te.

DRAENOG



Aeth canwr o fri

I Gaernarfon am sbri;

Cychwyn saith, ar ei daith,

Yn y flwyddyn naw deg saith,

Yn ôl naw deg wyth . . .

Ia, wedi cael tipyn o lwyth.

Benthyca BEIC,

A sôn am heic,

I fynd i Gaeathro, lôn Cilgwrthwch

Y lôn yn hir ac mewn tywyllwch.

Heibio Pant Afon a Than-y-coed,

Cyrraedd y RING yn ysgafn droed.

Troiodd y canwr i gyfeiriad ble?

Er mwyn cael bwydo'r Me Me!

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon
673513



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**ANTUR CANOLFAN ARDDIO
ANTUR WAUNFAWR**

MIS YMA . . . Tybiau Polyanthus,
Grug a Forget-me-nots

COFIWCH! Mae diwrnodau Sant Ffolant a Santes Dwynwen
y mis yma. Cewch lu o anrhegion a chardiau ar gyfer pob
achlysur yn Siop yr Antur.

Ar agor 9.00 — 4.00 Llun i Gwener

BRYN PISTYLL, WAUNFAWR (01286) 650721

Mae ein Storfa Ddodrefn ym Mangor ar agor
bob dydd Mercher rhwng 10.00 a 3.00 i gyflenwi
dodrefn rhad i bobl di-waith neu ar incwm isel.
Gofynnwn hefyd am gyfraniadau o ddodrefn gan
y cyhoedd i'n Cynllun Dodrefn.

DEPO WEST END, BANGOR (01248) 355112



SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Plant Ysgol Sul capel Cysegr yn ystod eu gwasanaeth Nadolig.

CYDYMDEIMLO. Mewn damwain ffordd erchyll yn y tywydd mawr ar noswyl y Nadolig bu farw Arwel Jones, 16 Tan y Cae. Estynnir pob cydymdeimlad i Gareth ac Anne a'r teulu yn eu profedigaeth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Mewn cyfarfod diweddar a gynhaliwyd yn festri Bethel cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Gwilym Williams, Bro Rhos. Cafwyd ganddo gyfres o sleidiau a sgwrs ddiddorol yn olrhain datblygiad peiriannau amaethyddol. Diolchwyd i Gwilym gan Sam Davies.

DIOLCH. Dymuna disgyblion dosbarth chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i'r siopau a'r busnesau canlynol am gyfrannu tuag at eu parti a drefnwyd ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar: Merched y Wawr, Clwb Pêl-droed Bethel, Y Bedol, Goronwy Owen, Siop Gig Bethel, Ceir Cymru, Ffenestri Celtic, H. Owen, Y Ddôl, Siop Treflyn, Y.M., Margaret llefrith, Y Post.

CLWB 100 Y NEUADD. Enillwyr Tachwedd — £20: Iolo Morgan, 7 Tan-y-cae (68); £10: Emyr Price, 5 Tan-y-ffordd (169); £5 yr un: Joan Jones, Rhos Chwilog (120); Eleri Warrington, Wern Bach (15); Richard Parry, 4 Rhos-lan (34); Sue Williams, Gwylanod (31); Alice Jones, Sycharth (70); Emlyn Hughes, Bethlyn (58); Nora Parry, 11 Tan-y-buarth (4); Mair Price, 5 Tan-y-ffordd (49). Enillwyr Rhagfyr — £20: Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn (203); £10: Margaret Williams, Llanddwyn (82); £5 yr un: Margaret Bardsley, Windy Corner (217); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Mary Evans, Swyn Eryri (79); Margaret Rees, 6 Y Rhos (7); Olwen Jones, 5 Stad Eryri (24);

Alwyn Jones, Bro Dawel (81); Gwilym Williams, 2 Bro Hyfryd (148); Alwyn Jones, Bro Dawel (75). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

MERCHED Y WAWR. Treuliwyd cyfarfod cyntaf 1998 yng nghwmni Joan Jones, Rhos Chwilog a'i ffrindiau yn ein dysgu i ddawnsio llinell. Tystiai pawb o'r aelodau iddynt fwynhau eu hunain. Diolchwyd i Mrs Jones gan June Owen a gyflwynodd dusw o flodau iddi fel gwerthfawrogiad. Gwnaed paned dderbyniol wedi'r chwysu gan Mair Jones, Elizabeth Evans ac Eirlys Sharpe. Enillwyd y raffl gan Nerys Owen. Llongyfarchwyd Mair Jones ar enedigaeth wŷr — Gethin Wyn. Cydymdeimlwyd â theulu Cefn Gwyn yn ymadawiad Mrs Williams a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen. Dymunwyd adferiad buan i fam Beti Owen a oedd yn Ysbyty Gwynedd a hefyd Richard, wŷr Elizabeth Evans a oedd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Cyflwynwyd £158 i Dŷ Enfys yn dilyn ein gwasanaeth Nadolig a mynegwyd diolch gan y Llywydd am bob cefnogaeth. Fe fydd côr y gangen, dan arweiniad Deilwen Hughes, yn cymryd rhan mewn Noson Werin a drefnir gan y rhanbarth yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, nos Wener, Ebrill 24. Bydd ymarferion yn cael eu trefnu'n fuan.

Cynhelir pwyllgor y gangen yn 4 Tan-y-cae nos Fercher, 4 Chwefror.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen nos Fercher, Chwefror 11 pryd y disgwylir Robin Jones, Llanfairpwll i sôn am 'Llwyau Caru'. Bydd y lluniaeth dan ofal Nora Parry.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

NODDWR. Hoffai disgyblion chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i Garej Gwalia am gyfrannu tuag at eu parti llwyddiannu i ddisgyblion Ysgol Pendalar.

GENEDIGAETH. Llongyarchiadau i Ceri Thomas ar enedigaeth merch, Laura, ychydig cyn y Nadolig. Felly mae Peris a Wendy Thomas, 4 Bryn y Gof yn daid a nain!

CWIS LLYFRAU. Buddugwyr Cwis Llyfrau Ysgolion Gwynedd (ysgolion cynradd mwy) a gynhaliwyd yn ddiweddar oedd Ysgol Bontnewydd. Aelodau'r tîm oedd Deva Roberts a Mari Gwenllian Roberts o Gaeathro ynghyd â Rhodri James a Maya James. Fe fu cryn weithgaredd yn yr ysgol ar gyfer y gystadleuaeth flynyddol gydag arddangosfa, gwaith ysgrifennu a holi manwl am y llyfrau gosod ac, wrth gwrs, roedd gwaith tîm Ysgol Bontnewydd yn ardderchog. Fe fydd y tîm rŵan yn cystadlu yn y rownd derfynol yn Aberystwyth ym mis Mehefin.

GWAELEDD. Yn ddiweddar bu Margaret Jones, Ysbyty (y Post gynt); D. Muhlenfeld ac Annie Roberts, Bryn y Gof yn Ysbyty Gwynedd ac Eluned Jones, Bryn y Gof, yn Ysbyty Bryn Seiont. Fodd

bynnag mae Cledwyn Jones, Ysbyty, gartref ar ôl derbyn triniaeth. YMFUDO. Pob hapusrwydd i Mrs Audrey Maynard, Rhanna, Stad Glandŵr wrth iddi symud i fyw yn ymyl ei mab yn Bromborough, Swydd Caer.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yng Nghapel y pentref yn ystod y mis:

1: Parchg W. R. Williams (2)
8: Parchg Emrys Thomas (2)
15: Parchg W. R. Williams (2)
22: Cyhoeddiad lleol
29: Parchg Huw John Hughes (2)
Croeso i bawb ymuno â chynulleidfia gartrefol, leol.

TYNFA FISOL. Enillwyr mis Ionawr oedd: £40: Richard Jones, Ger y Tŵr (68); £25: Mary Henderson, 6 Erw Wen (78); £15: Tony ac Eirian Griffiths, Anedd (50); £5: Aled a Jill Thomas, Llwyn Onn, Stad Glandŵr. Dymunwn flwyddyn newydd dda i'n holl gefnogwyr.

Y FFENS. Trist yw gweld ffens yn cael ei godi o amgylch Parc Hamdden Glangwna. Arwydd o'r oes efallai. Ond ai ffens i gadw'r ymwelwyr i mewn neu ynteu i gadw'r pentrefwyr allan ydyw?

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Llew Hughes a'r plant Eryl, Nerys a Berwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli priod, mam a nain annwyl a charedig. Bu Mrs Eluned Hughes yn weithgar iawn yn y pentref a bu'n aelod o amryw o sefydliadau ar hyd y blynyddoedd ac yn cymryd diddordeb ym mhob gweithgaredd. Bu'n aelod ffyddlon ac yn organyddes yng nghapel y Tabernacl a'r hyd y blynyddoedd. Mawr fydd y golled ar ei hôl.

Dymuna Mr Llew Hughes, Hyfrydle, Eryl, Nerys a Berwyn ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Eluned Hughes. Derbyniwyd swm sylweddol o arian er cof amdani ac fe roddwyd rhoddion i'r Ysgol Gynradd, y Ganolfan Gymuned, Capel Tabernacle ac i Gronfa Bws Mini Cartref Preswyl Penisarwaun. Diolch o galon i bawb.

NEWYDDION O'R YSGOL. Blwyddyn newydd dda i chwi. Llongyfarchiadau mawr i Miss Wendy Smith, ein gweinyddes feithrin, ar ei dyweddïad â Mr Gary Roberts o Gaernarfon.

Bu nifer o blant yr ysgol yn canu yn Eglwys Sant Gabriel yng nghyngerdd Mawl y Gaeaf. Braf oedd cael cyfrannu i lwyddiant y noson a diolch yn fawr i bwyllgor yr eglwys am estyn gwahoddiad i ni yno.

Daeth Mrs Luned Mason, y nyrs ysgol, draw i sgwrsio â phlant Bl. 5 a 6 am y corff a'r newidiadau sydd yn digwydd yn eu harddegau.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Rhagfyr oedd Mrs Marjorie Smith, Llanrug a Mrs Christine Jones, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

Yn ystod y tymor hwn bydd plant Bl. 1-6 yn cael gwersi dawns, gymnasteg a chwaraeon yng Ngholeg Prifysgol Bangor. Hwy fydd dosbarthiadau ymarfer myfyrwyr addysg gorfforol sy'n dilyn cwrs B.Addysg.

YR URDD. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog iawn yng nghwmni Mr Richard Lloyd Jones a'i fab Rhys o Fethel. Enillwyr yr arlunio oedd Sarah, Andrew, Dewi a Mathew. Diolch o galon am ddod atom ac edrychwn ymlaen i'ch gweld yma eto yn y dyfodol.



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.

Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis

★ AGORED AMSER CINIO DYDD GŴYL DDEWI ★

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant Ysgol Sul Brynrefail fu'n perfformio dramodig am bren yr uchelwydd a'i neges Gristnogol.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Paul Jones, 5 Trem Eilian ar ddathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ar Ragfyr 12fed. Dymuna Paul ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur.

COFION. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Ada Jones, Ty'n Twll a gafodd ei tharo'n wael cyn y Nadolig ac wedi treulio cyfnod yn ysbyty Walton, Lerpwl, Ysbyty Gwynedd, Bangor ac yn awr dan archwiliad yn Ysbyty Gobowen. Hefyd Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd. Da yw deall ei bod yn gwella yn dilyn ei anhwylder.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Cafwyd oedfaon bendithiol dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd pryd y daeth nifer teilwng o'r aelodau ynghyd. Bnawn Sul, Rhagfyr 14eg, dathlwyd y Nadolig gan yr aelodau a'r plant. Paratowyd y sgript 'Y Nadolig - ei draddodiadau a'i neges' gan Lowri P. Roberts Williams. Roedd y cyflwyniadau agoriadol dan ofal Maurice Jones, Verna Jones a Norman Williams. Cymerwyd rhan ymhellach yng nghyflwyniad traddodiadau gwahanol wledydd - eu harwyddocad a'u neges - ar ffurf darlenniadau, deialog, cerddi a charolau gan Betty Owen, Jennie Hughes, Amy Lambert, Teulu Ty'n Buarth - Richard W. Evans, Dilys Morris a Mair Davies, Eleanor Jones, Elen George a phlant yr Ysgol Sul - Caryl, Awen, Rhian, Anna, Dylan, Elen ac Amy, Einir Gwyn a David Ellis, Lowri Williams a Dwynwen Williams. Ar derfyn y cyflwyniad gan Hefin ac Ifanwy Jones am Sant Nicolas, yn annisgwyl i bawb, ymddangosodd Siôn Corn gan ddosbarthu anrhegion i blant yr Ysgol Sul. I gloi, cyflwynwyd neges y Nadolig heddiw gan Emyr Williams. Diolchwyd am y paratodau a'r ymateb rhagorol gan bawb a gymerodd ran gan Gwyn Hefin Jones.

Nos Sul, Rhagfyr 21ain daeth cynulliad da i'r oedfa dan arweiniad y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

Nos Sul, Ionawr 4ydd, trefnwyd oedfa dechrau blwyddyn dan nawdd yr aelodau gan Jennie Angharad Roberts. Cymerwyd rhan gan Richard W. Evans, Ifanwy Jones, Gwyn Hefin Jones, Norman a Lowri

Williams, Betty Owen, Jennie Hughes, Verna Jones, Maurice Jones ac Emyr Williams.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Chwefror:

1: Parchg Iorwerth J. Owen, Caernarfon (2.00)

8: Mr David Williams, Bethel (5.30)

15: Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)

22: Mr Glyn Owen, Llanwnda (5.30)

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen yn y Ffestri, nos Lun, Ionawr 19eg. Roedd y noson dan ofal y llywydd, Mrs Pat Jones. Bu'n arddangos y grefft o baentio ar wydr ac yn dilyn cafodd pawb o'r aelodau gyfle i ymarfer y ddawn ar lestr. Ar derfyn y gwaith, wedi rhoddi cannyll oleuedig ymhob un a diffodd y trydan, roedd yn olygfa drawiadol iawn! Cymerodd pob un o'r aelodau y llestr gartref gyda hi. Rhoddwyd y te gan y llywydd a hi hefyd a enillodd wobwr y mis, rhoddedig gan Eleanor Williams. Diolchwyd am noson bleserus gan Jennie Hughes.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCHIADAU. Dymuna disgyblion dosbarth chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch yn fawr i aelodau Capel Sardis am gyfrannu tuag at eu parti Nadolig llwyddiannus i blant Ysgol Pendalar.

Dymuna Mr Llewelyn Jones a'r teulu, 4 Bro Elidir ddiolch yn gywir iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

Dymuna Mr a Mrs Ifor Phillips, 12 Maes Eilian ddiolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Len Jones am ei gymwynas fawr iddynt noswyl y Nadolig. Diolch Len.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian Wyn Morris, 5 Minffordd, Brynrefail ar ennill gwerth £200 o docynnau Woolworth mewn cystadleuaeth ysgrifennu llythyr at Siôn Corn a drefnwyd gan y cwmni. Mae Rhian yn un o blant Ysgol Sul Eglwys M.C. Da iawn Rhian.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fercher, 18 Rhagfyr roedd Seindorf Arian Deiniolen hefo ni yn y Gymdeithas a chafwyd noson o garolau. Arweinydd y noson oedd Mrs Megan Morris ac er garwed yr hin fe ddaeth nifer dda iawn ynghyd. Mae cael canu carolau efo'r Seindorf yn ddigwyddiad blynyddol bellach a diolchwn iddynt am fod mor barod i ddod atom yn flynyddol. Nos lau, 8 Ionawr cawsom gyfarfod gweddi dechrau blwyddyn o dan ofal Eglwys M.C. Wrth yr offeryn roedd Mrs Margaret Cynfi Griffiths a braf oedd cael croesawu Mr Tydfil Jones yn ôl wedi gwella ar ôl llawdriniaeth. Braf yw gweld fod y traddodiad o gynnal cyfarfod gweddi dechrau blwyddyn yn dal i'w gadw yma a diolchwn i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

Erbyn y daw'r Eco o'r wasg fe fydd Teulu Ty'r Ysgol wedi bod yn cadw noson inni.

Trefniadau mis Chwefror yw - nos lau, 5 Chwefror am 7 o'r gloch: noson o dan ofal y Parchg Harri Parri, Caernarfon; nos lau, 19 Chwefror am 7 o'r gloch: noson o dan ofal Mr David John Jones, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfodydd.

Y GANOLFAN. Fel y gwyr pawb fe gynhaliwyd parti Nadolig nos Wener 12 Rhagfyr ac er mai arbrawf ydoedd fe gafwyd noson arbennig o dda, a'r Ganolfan yn llawn gyda'r henoed, fel y plant, yn mwynhau eu hunain. Diolch arbennig i Carol Williams, Emrys Owen a Harry Edge ac i bawb arall a weithiodd mor galed i wneud y noson yn llwyddiant ysgubol.

Yn awr edrychwn ymlaen am yr eisteddfod gan obeithio y cawn yr un llwyddiant. Cynhelir yr eisteddfod nos Fawrth, 31 Mawrth am 6.30 p.m. Mae'r rhagolygon yn argoeli'n dda.

Bydd cyfarfod cyhoeddus nesaf y Ganolfan ar 2 Chwefror am 7 o'r gloch.

TYWYDD GARW. Mae'n debyg nad oes rhaid atgoffa neb yn y pentref am y storm a gawsom noswyl y Nadolig ac i'r rhan fwyaf o'r pentref fod mewn tywyllwch dros yr Ŵyl tan yn hwyr bnawn Gwener. Yn dilyn hyn cynhaliwyd cyfarfod brys yn y Ganolfan nos Lun, 29 Rhagfyr, gan mai nid dyma'r tro cyntaf inni fod heb drydan am rai dyddiau. Yn bresennol roedd ein Aelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley ac fe'n hysbysodd ei fod yn cyfarfod â Mr Charles Berry o Gaer ar y dydd lau canlynol ac y byddai yn cyflwyno ein cwynion iddo. Bellach rydym wedi derbyn llythyr oddi wrth Mr Wigley yn dweud fod Mr Berry yn fodlon i un o'i swyddogion ddod i gyfarfod â ni yn y Ganolfan ac rydym wedi cysylltu â hwy yn gofyn am ddyddiad i gael y cyfarfod. Cyn gynted ag y cawn ateb byddwn yn rhoi'r wybodaeth i bawb. Diolch i Mr Wigley am roi o'i amser prin i ddod atom.

Yn ystod y tywydd garw bu difrod i do Capel Sardis ac am ddau Sul bu'r aelodau yn cydaddoli ag aelodau Eglwys M.C.

AM OFFER TŶ A GARDD ...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Rhowch rosyn i'ch anwylyd ar ddydd Sant Ffolant -

Rhodd o'r galon yw blodau

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR GYFER PICLO

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr



Dosbarth babanod (tua 6 oed) Ysgol Dolbadarn a dynnwyd yn wahanol i'r arfer ar y pryd, y tu mewn i'r Ysgol, Nadolig 1920. Miss Bessie Roberts, Cambrian Terrace yw'r ail o'r chwith yn y llinell flaen, ond ni chefais wybodaeth sicr am enwau gweddill y plant. Ymhlith y rhai oedd yn nosbarth Miss Jones roedd Bessie Jones (Ynyswen); Guto, Brynbedw; Megan Lloyd; Bessie Williams (mam Danny a Stanley); Ifor Morris; Jackie Gwynedd; Lavinia Williams; Katie (Plisman); Huw Curig Owen a Jackie Ashblit. Tybed oeddent yn y llun yma?

GRANT I ADFYWIO'R FRO

Blwyddyn newydd dda i chi gyd! Mae'n dymor addewidion unwaith eto ac yn gyfle euraidd i fanteisio ar y meddylfryd yma a cheisio troi syniadau'n brosiectau byw er budd eich cymuned. Beth am uwchraddio'r neuadd leol neu drefnu gŵyl unigryw? A oes angen darparu gwasanaeth gofal plant, creu maes picnic neu adfer hen adeilad segur fel gweithdy yn y fro? Mae'r rhestr yn ddiddiwedd a'r Grant Adfywio Bro yn un ffynhonnell i'w thargedu ar gyfer cyrraedd y gost derfynol. Elfen bwysig sydd angen ei brofi wrth wneud cais am arian o'r Grant Adfywio yw'r elfen economaidd felly ffoniwch eich Swyddog Adfywio Bro am wybodaeth a chymorth efo'ch cais.

Dywed Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfaï fod nifer o syniadau gwahanol am brosiectau cyffrous yn codi yn yr ardal a bydd cyfle gwych i frodorion ardal Waunfawr chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad eu cymuned pan gynhelir cyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Waunfawr nos Wener, 27 Chwefror am 7.30 p.m. i drafod y broses o greu arolwg bro. Dewch yn llw, mae'ch barn chi'n bwysig.

Bu Eifion Jones hefyd yn brysur yn ystod y mis diwethaf yn symud i'w swyddfa uwchben y Ganolfan Groeso yn Llanberis. Hefyd bu'r Gymdeithas Adfywio yn Neiniolen yn gweithio'n galed ar ddatblygu rhaglen o brosiectau a'r blaenoriaethau ar gyfer y pentref. Cafwyd cyfarfod ddechrau Ionawr i'r Gymdeithas

adrodd yn ôl i'r gymuned ar eu gwaith a chafwyd diwrnod cyfan o gynllunio adeilad cymunedol yn yr ysgol ddydd Sadwrn y 24ain. Hyn i gyd gyda chefnogaeth Eifion. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn dechrau ar weddnewid Manchester House yn Ganolfan Adnoddau i'r pentref a'r newyddion da ydi fod yr adeilad bellach wedi ei brynu gyda grant gan Gyngor Gwynedd.

Cofiwch fanteisio ar eich Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian o Ewrop. Bydd Eirian neu Eifion yn falch o drafod unrhyw syniadau a chynnig arweiniad. Gellwch gysylltu ag Eirian ar (01286) 650779; ac Eifion ar (01286) 870977.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE


Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



Colofn CWYSI gan
Nesta Griffiths

01286 830459

Bydd y Telecabanna yn dod i Arfon o ddydd Iau, Mawrth y 5ed hyd at ddydd Sadwrn y 14eg o Fawrth.

Uned symudol yw'r Telecabanna wedi ei datblygu ar gyfer cynnig hyfforddiant cyfrifiadurol, yn bennaf i'r sector amaethyddol ond bydd hefyd cyfle i fudiadau gwirfoddol neu ysgolion ddefnyddio'r uned.

Mae wyth cyfrifiadur ar gael yn yr uned a chynigir cyrsiau yn amrywio o gwrs sylfaenol i'r dechreuwyr i sesiynau gwybodaeth mwy penodol fel 'Agridata' neu ar sut i gynhyrchu bas-data neu daenlenni i ateb eich gofynion ar y fferm neu yn eich clwb neu fudiad gwirfoddol.

Bydd yn bosibl lleoli'r Telecabanna mewn unhryw fan lle mae cysylltiad trydan a llinell ffôn ar gael, e.e. mewn iard ysgol neu ar fuarth fferm. Bwriedir symud yr uned o amgylch gwahanol ardaloedd Arfon yn ystod y cyfnod er mwyn rhoi'r cyfle i bawb gymryd mantais o'r cyfleusterau sydd ar gael.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cynnig lleoliad i'r Telecabanna am ychydig o ddyddiau, neu os ydych am dderbyn hyfforddiant neu hyd yn oed gynnal cyfarfod o'ch clwb yn yr uned, cysylltwch â mi ar y rhif uchod mor fuan â phosib, os gwelwch yn dda.

Hefyd mae CWYSI yn bwriadu cyhoeddi rhifyn newydd o'r Cyfeiriadur *Sgiliau Gwlad* yn y dyfodol agos ac os ydych chi yn gallu cynnig unrhyw wasanaeth fel ffensio, cneifio, contractwr peiriannau, neu efallai bod y wraig yn gwau, gwnio, teipio neu gyfieithu, dyma eich cyfle i ennill mwy o gyfleon gwaith, yn ychwanegol i'ch ffermio. Cysylltwch â mi gyda'ch manylion er mwyn manteisio ar y cyfle hwn.

Yn dilyn cyfarfod llwyddianus cyntan o'r Clwb CWYSI yn Llanberis ym mis Tachwedd, bydd ail gyfarfod o'r Clwb yn cael ei gynnal ar nos Fercher, Chwefror 11 yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis am 7.30 p.m. Bydd Mr Merfyn Evans o gwmni Bwydlyn yn dod atom i roi sgwrs a sleidiau ar farchnata. Edrychwn ymlaen at eich cwmni ar y noson.

Os oes unrhyw deulu amaethyddol yn yr ardal nad ydynt yn derbyn gwybodaeth am CWYSI, cysylltwch â mi ar y rhif uchod er mwyn i chi gael manteisio ar y cyfleon sydd ar gael.

Ar ben arall y lein . . .

Gyda rhyw fis i fynd cyn dechrau tymor arall mae'r pysgotwyr bellach wedi ailaddurno'r waledi plu a'r gêr wedi cael tipyn o saim, a dyna — mwy na thebyg — ydi'r unig weithgarwch mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'i wneud dros fisoedd y gaeaf. Ond hollol wahanol yw hanes y criw bach sy'n gweithredu mor ddiwyd yn y Ddeorfa gan wneud gwaith cynnal a chadw er budd y Gymdeithas.

Ers i'r Ddeorfa agor yn '91 mae'r datblygiadau wedi brasgamu ymlaen, a'r gaeaf yma mae yna 9,000 o wyau brithyll brown a thros 20,000 o wyau eogiaid yn barod i hybu stoc yr afonydd ac hefyd Llyn y Dywarchen.

Gan mor frwdfrydig yw gweledigaeth y Clwb am y dyfodol mae swm sylweddol o arian wedi'i glustnodi o'r gronfa Ewropeaidd i gynllun busnes gael ei baratoi ar bob agwedd o'r gwaith. Mae cwmni o ymgynghorwyr o Aberdau-gleddau wedi eu penodi ac maent eisoes wedi dechrau ar y gwaith. Yn ôl termau'r cytundeb bydd yn rhaid i'r adroddiad llawn fod yn barod erbyn yr ail wythnos ym mis Ebrill 1998.

Yn barod mae rhai sylwadau'n argoeli'n ardderchog gyda chyfleon arbennig i ddatblygu ymhellach a thrwy hynny

gobeithir gweld swyddi yn cael eu creu a hynny mewn maes lle gwelir cynnydd mawr mewn diddordeb yn y dyfodol agos.

Mae'n rhaid diolch i rai o swyddogion Cyngor Gwynedd ac yn enwedig Gweithgor Strategaeth ardal y lechen, Dyffryn Nantlle am eu brwdfrydedd i'n cynlluniau. Wn i ddim beth sy'n digwydd i weithgor Padarn o ardal y lechen — dydyn nhw ddim i'w weld yn ymwybodol o'r datblygiadau cyffrous sy'n mynd ymlaen ar drothwy eu drws!

I'r rhai sydd â diddordeb fel welir rhestr o enwau'r pyllau sydd ar ddyfroedd o fewn rheolaeth y Clwb ar ein tair afon.

Drwg oedd gennyf glywed am golli un o'n haelodau brwd, sef Goronwy Morris, Bro Rhythallt, Llanrug. Un o hogia Deiniolen ydoedd yn wreiddiol, a threuliais amser difyr yn sgwrsio â Goronwy ar lan yr afon a chefais lawer stori ddifyr ganddo am sut yr oedd hi flynyddoedd yn ôl ac un o'm ffefrynnau oedd hanes 'sgota gyda'r nos ar Lyn Penrallt pan oedd y llyn hwnnw'n cael ei stocio gan Y Faenol. Gobeithiaf cael ailadrodd y stori honno cyn bo hir yn yr Eco. Wrth gwrs nid yw Llyn Penrallt yn bod bellach. Mae gen i gof, pan yn blentyn, i 'nhad sôn am yr argae yn

chwalu a physgod ym mhobman.

Oes 'na rywun yn cofio pa bryd y digwyddodd hynny?

Wedi blynyddoedd o ymdrech mae'r argoelion yn gwella ynglŷn â'r ddau waith carthffosiaeth sy'n achosi pryder i'r fro, sef Llanberis a Chaernarfon. Cyn belled ag y mae Llanberis yn y cwestiwn mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gosod rhybudd gorfodaeth ar Dŵr Cymru i gydymffurfio â'r gofynion. Fy nealltwriaeth i o rybudd o'r fath yw — os bydd i Ddŵr Cymru fethu cadw i'r caniatâd arllwyso unwaith eto, fe fydd erlyniad yn dilyn (a hen bryd hefyd) — ond cawn weld.

Yng Nghaernarfon mae'r Asiantaeth yn penderfynu o fewn yr wythnos os oes yna achos i'w ddwyn yn erbyn Dŵr Cymru am fethu â chadw i'r gofynion yma.

Be sy'n mynd ymlaen — cwmni mawr sy'n cyhoeddi elw aruthrol a ninnau fel trigolion yn gorfod byw yn ein budreddi ein hunain am nad oes arian i wella'r safonau?

Yr unig lais — fel y llais yn y ddiffaethwch — yw llais y Gymdeithas Bysgota yn ceisio cael yr awdurdodau i weithredu.

Ble mae ein cynghorwyr — cymunedol a sirol — na fuasent yn canu eu clychau am yr gwelliannau rydym ni yn eu haeddu?

H. P. HUGHES

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

CYDYMDEIMLO. Ar 15 Ionawr 1998 yn Sydney, Awstralia, yn 87 mlwydd oed, bu farw Mrs Ellen Jones, gwraig y diweddar Hugh Alun Jones, gynt o Tan Merddyn, Ceunant, Llanrug. Cydymdeimlir â Brenda, Cynthia a Douglas a'u teuluoedd, a theulu'r ddiweddar Margaret Jones yn Awstralia ac â'r brodyr a'r chwiorydd yma.


BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran
Ffôn: (01248) 670726


Camera yn ngofal Richard Ll. Jones
5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB 100 YR YSGOL. Enillwyr am y tri mis diwethaf oedd — Tachwedd: £20, Helen Sutherland; £15, Siân Jones, Mynydd Llandegai; £7, F. J. Davies, 17 Tan-y-cae. Rhagfyr: £20, Enid Williams, Yr Efail; £15, Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun; £7, A. G. Parry, 4 Rhos-lan. Ionawr: £20, Nora Parry, Tan-y-buarth; £15, Iona Williams, 1 Tan-y-cae; £7, Carol Jones, Penmaen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cefnogwch ein Hysbysebwy



CROESAIR CHWEFROR



ENW
CYFEIRIAD.....

Mae'r ysgolion uwchradd ym Mhenygroes ac ym Methesda â'u henwau yn ymwneud â'r math o dirwedd y maent wedi eu lleoli ynddo (31 a 33 ar draws). Dyma ffurf y tir hefyd yn 1 a 4 ar draws ac 1 a 17 i lawr hefyd.

AR DRAWS


1. Llidiart yn ardal Dinbych? (5)
4. Mewn piser drylliedig mae Ysgol Brynrefail (5)
7. Cyfnod o chwant ymryddio (4)
11. Uwch ein pen i lawr grisiau, ond dan draed yn y llofft (6)
12. Un o'r rhai oedd yn enedigol o'r lle yn wreiddiol (9)
13. Crefu (7)
15. Un sy'n holi (8)
16. Gall caib Rol dryfersuro (7)
17. Cyfoeth, mwy i Non feddw (7)
21. Gweithwyr (7)
23. O! Ach! Gwael! Na! (7)
25. Sacrament (8)
27. Chwalwyd tre ynddo, wedi bod (7)
30. Gwasg Gwynedd neu'r Lolfa, er enghraifft (9)
32. Ceidwadwr (4)
34. Tynnu'r grawn o'r yd (5)

ATEBION CROESAIR RHAGFYR

Derbyniwyd dros ddeg ar hugain o atebion i groesair mis Rhagfyr ac o'r bagaid hwnnw roedd ymdrech y canlynol yn berffaith gywir: Nansi Davies, Rhuthun; Pat Owen, Caerfyrddin; Eluned Jones, Pencaenewydd; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog Fawr; Chris Roberts, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; Ceridwen Williams, Llanrug; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Megan Wyn Jones, Bangor; M. P. Jones, Clynnog; Gareth Oliver, Tregarth; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Catherine Ann Jones, Rhiw; Hywel Griffith, Awstralia; G. Gill, Bangor; Mair Evans, Caernarfon; Mary Davies, Waunfawr; Ceinwen Williams, Bethel; Elfed Evans,

I LAWYR

1. Ardal Ffrancan Wyn (5)
2. Argaen (8)
3. Teigr (7)
5. Pysgota samwn (4)
6. Yr hogyn a gofleidir gan Marian Tomos (5)
8. Codi'n donnau (7)
9. Math o daith i le cysegredig (9)
10. Yn agos (2,5)
14. Usurwyr (6)
17. Ardal sydd rhwng Capel Curig a'r Wyddfa (6)
18. Sicrhau fod rhywbeth yn synhwyrol a derbynol (9)
19. Gwisgoedd y defaid (7)
20. Arwyddocâd anghywir (8)
22. O geg y berth, yn flêr ac heb ei gorffen y daw'r gacynen (7)
24. Wythawd wedi colli un tenor am un baswr (7)
26. Yn feddw, gweli rhywbeth gwerthfawr (5)
28. Yn wahanol i 11 ar draws, mae'r rhain uwch ein pennau yn y llofft (5)
29. Ysglyfaeth (4)



Llanllechid, Mabel Parry, Porthmadog; Dorothy Jones, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; N. Hughes, Cwm-y-glo ac Olwen Owen, Llanberis.
Ymgais Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, Tregarth ddaeth allan o'r het ac iddo fo — £5 cynta'r flwyddyn. Llongyfarchiadau.
Ewch ati i ddatrys hwn eto gan yrru eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun erbyn 16 Chwefror. Pob lwc i chi.

Dyddiader y Mis

2. Llun **DEINIOLEN:** Agor Capel Mair yn Eglwys Llandinorwig.
3. Maw **LLANBERIS:** Y Gymdeithas gydag aelodau o Gwmni Drama Llanberis.
LLANBERIS: Cyfle i gyfarfod â Chlerc y Cyngor Cymdeithas a chynrychiolydd o'r Cyngor, yn Angorfa, o 10 a.m. hyd hanner dydd.
4. Mer **DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda'r Parchg Harri Parri.
9. Llun **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwysi.
11. Mer **LLANBERIS:** Bore Coffi am 10 o dan nawdd Ysgol Feithrin Llanberis.
BETHEL: Merched y Wawr. Sgwrs gan R. Jones, Llanfairpwll.
16. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr gyda Rhys Jones.
19. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas — sgwrs gan David J. Jones, Caernarfon.
23. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas. Dangosir ffilm — 'Y Naturiaethwr'.

RHODDION

£20: Er cof am Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, Cwm-y-glo. Cwmni Rheilffordd y Wyddfa, Llanberis.
£10: Miss Elisabeth Hughes, Penros, 2 Rhes y Faenol, Llanberis.
£5: Mrs Annie James, Regent House, Deiniolen. Sharon Griffiths, Bryn Teg, Llanberis. Buddug Wakeham, 8 Stryd Newton, Llanberis. Beryl a Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis. Mrs Susie Roberts, 23 Dôl Eilian, Llanberis. Mrs A. M. Morris, 8 Bro Deiniol,

Deiniolen. Mrs J. Jones, 15 Hafan Elan, Llanrug. Tecwyn ac Ellen Jones, 1 Caradog Place, Deiniolen.
£3: Catherine a John Williams, 6 'Rallt Goch, Llanberis. Elisabeth Roberts, gynt o 10 Stryd Turner, Llanberis. Miss J. M. Pritchard, Plas Pen Gwaith, Llanberis. Mrs Mary Grace Williams, Plas Pen Gwaith, Llanberis. Lizzie Evans, Meirionfa, Penygroes. Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
£2: Di-enw.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!
ffoniwch (01286) 830609
- TENEUWCH -
SLIM CHWIM MEWN DIM!



ELLIS WYN

SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan yn Farbwr S-Y-M-U-D-O-L
- Yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CHWARAEON

CROESAWU TÎM ARALL



Y tymor pêl-droed hwn croesawyd tîm Waunfawr i gynghrair Pentec Caernarfon a'r Cylch. Ers rhai blynyddoedd bu criw gweithgar yn hyfforddi a chefnogi pêl-droed ieuenctid yn y pentref. Yr oedd strwythr pendant i bêl-droed yno, a braf oedd gweld rhai yn mynychu cysiau hyfforddi. Gyda sefydlu'r tîm oedolion — er ei fod ar wahân i'r clwb ieuenctid — y mae yn gyfle i ateb y broblem o'r 'blynyddoedd coll'. Dyma'r blynyddoedd pan rydym yn colli nifer o chwaraewyr ifanc am fod y strwythr gynghreiriol yn gorffen yn 16 oed.

Ar ddechrau 1998 mae'r clwb newydd yng nghanol y tabl ac yn uwch nag ail dimau Llanberis, Llanrug a Deiniolen. Ar wahân i bedwar, mae aelodau'r tîm yn byw yn Waunfawr. Mae trawsdoriad oed yno — gyda Gareth Jones yn rhygnu ymlaen ac yntau yn nesáu at y pen-blwydd 'arbennig'. Gyda llaw, mae Gareth a'i wraig Marian — ysgrifenyddes weithgar y clwb — yn gwadu mai 'mid-season break' gan y clwb oedd y gwyliau yn y Canaries. Mae'n siŵr y bydd y lliw haul yn tynnu sylw ar bnawn rhewllyd o oer wrth odre'r Wyddfa ym Metws Garmon. Llongyfarchiadau i'r

pwyllogor am gyflwr ardderchog eu maes. Ar y pwynt ynta, diddorol fod bwrdd llywodraethwyr Cynghrair Cymru wedi cyfarfod yn ddiweddar i draf cyflwr truenus rhai o'n prif feysydd.

Wedi pymtheg gêm yn y gynghrair mae'r Waun wedi ennill 5, tair yn gyfartal a cholli saith. Cafwyd 'rhediad' yn y Junior Cup hyd at y drydedd rownd ond y dasg eleni yn y tymor cyntaf yw sefydlu a symud o gropian i gerdded.

Yn gefn i'r clwb mae pwyllogor gweithgar iawn. Fel pob pwyllogor y bwgan mawr yw codi arian oherwydd mae pêl-droed heddiw — ar unrhyw lefel — yn fater costus. Maent yn cyhoeddi rhaglen ar gyfer pob gêm gartref ac mae hynny'n denu noddwyr. Hefyd dechreuwyd y 'pwls bach' yn ddiweddar. Mae hwn yn ddull poblogaidd erbyn hyn mewn sawl ardal.

Dymuniadau gorau i'r cyw newydd yn nyth pêl-droed yr ardal. Edrychwn ymlaen at ei ddatblygiad, gan obeithio y gall gadw'r cysylltiad lleol â'r Waunfawr, ac y bydd hynny yn denu cefnogaeth y gymdogaeth. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn cystadlu am Darian yr Eco ddechrau'r tymor nesaf.

Y BYRDDAU'N DENU'R IFANC

Dros yr wythnosau diwethaf cafodd tipyn o Gymry sylw yn y campau lleiafrifol, yn enwedig chwaraewyr dartiau a snwcer. Yr oedd rownd derfynol Pencampwriaeth Dartiau'r Byd, gyda Ritchie Burnett yn colli, yn theatr pur gyda miliynau yn llygadu'r setiau teledu. Ac mae nifer o Gymry ifanc yn ymgiprys am brif wobrau'r byd snwcer.

Yma'n lleol mae diddordeb newydd mewn snwcer draw yn Llanberis. Cefais sgwrs â Ken Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Ganolfan, a chefais amser difyr yn olrhain hanes y gêm yn y pentref. O'r cyfnod ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf tan ganol y 60au Clwb Park Lane oddi ar y Stryd Fawr oedd y ganolfan. Yr enw mawr yn gysylltiedig â'r Park Lane oedd Moss Ingham oedd yn berchennog hen Westy'r Grosvenor (lle mae'r 'Heights' heddiw). Roedd hwn yn dipyn o chwaraewr — ac yn drefnydd — ac mae'r hen drigolion yn dai i sôn am ei ddawn. Roedd tri bwrdd yn y clwb, a'r rheiny mewn cyflwr da. Wedi'r Ail Ryfel Byd byddai unigolion yn llogi'r adeilad oddi wrth Gymdeithas Tlodion

Rhuthun ac yn cynnal y Clwb Snwcer fel busnes. Bu Mr Thomas o Stryd Newton yno am gyfnod, a'r olaf o'r llogwyr oedd John Roberts, Stryd Yardley. Pan gauwyd Clwb Park Lane yn y 60au gwerthwyd y tir i godi tai arno. Gwerthwyd hefyd y byrddau ardderchog.

Bu bwlch o bron i ugain mlynedd nes i rai o'r trigolion hyn alw am

YDI PETHAU MOR DDU A HYNNY?

Trist gennyf, fel cyn-ddyfarnwr, yw darllen am y cwynion di-ddiwedd am afon dyfarnwyr ar bob lefel. Ers blynyddoedd bu'n rhaid i'r 'dyn mewn du' ddioddef cael ei alw'n bopeth o fod yn ddall i fod yn blentyn siawns. Erbyn heddiw mae'r creadur yn aml yn cael ei feio am wendidau'r chwaraewyr eu hunain. Aml i nos Sadwrn rwyf wedi holi chwaraewyr lleol, 'Beth oedd y sgôr?' Gyda'r sgôr caf, bron yn ddiethriad, yr ebychiad, 'Roedd y reff yn uffernoll!' Y rheswm arferol dros y feirniadaeth yw bod y dyfarnwr wedi rhoi enw chwaraewr yn y llyfr bach neu wedi dangos y cerdyn coch i rywun. Mae'r creadur yn cael ei feirniadu am gario allan rheolau'r gêm.

Beth sy'n gyfrifol am y sefyllfa bresennol? Ar lefel uchaf y gêm, teimlaf bod gan y teledu ran yn y ddadl. Yn bersonol, teimlaf bod gormod o gemau byw ar y teledu. Mae gêm fyw bron bob nos i'r sawl sy'n derbyn teledu lloeren. Ar nosweithiau nad oes gêm ceir rhaglenni trafod ac mae'r rheiny'n aml yn canolbwyntio ar yr elfennau 'negyddol' neu 'ddadleuol' mewn gêm. Defnyddir toreth o adnoddau electroneg i ailddangos pob enghraifft o gamsefyll o wahanol onglau ac yna daw'r holl-wybodus Andy Gray i chwarae rôl y barnwr.

Mae'r ddadl am y defnydd o'r offer electroneg yn ddigon dilyd. Y cwestiwn mawr yw beth yw pwrpas defnyddio'r offer. Yr unig declyn y buaswn i yn ei ganiatáu fyddai cloc ar ochr y cae a hwnnw yn cychwyn ac aros dan reolaeth y dyfarnwr. Dyma'r dull a arferir gan rygbi'r gynghrair a phêl-droed Americanaidd. Yn yr America mae'r cloc yng ngolwg y dorf. Byddai'r dull hwn o gadw amser yn ystyried yr amser a gollid trwy anafiadau, gwastraffu amser penodol, y bêl yn y dorf, eilyddio, rhoi enwau yn y llyfr bach, ac yn y blaen. O ystyried yr holl bethau hyn onid yw'n syndod mai rhyw ddau funud y bydd y mwyafrif o ddyfarnwyr yn ei ganiatáu fel amser ychwanegol?

Diddorol fyddai cael rywdro gêm y byddai raid i'r bêl fod ar dir y chwarae am 45 munud drwy gydol dau hanner y gêm. Faint o amser gymerai gêm felly tybed? O gofio pris uchel tocynnau a yw'r gwylwyr yn

cael gwerth eu harian heddiw?

Y prif fwgan yn fy marn i yw'r taeru a'r cega gyda'r dyfarnwr. Mae llawer gormod o gymryd enw am 'dissent' sy'n dangos nad oes perthynas iach rhwng dyfarnwyr a chwaraewyr. Rôl y dyfarnwr yw rheoli'r gêm o fewn rheolau. Y mae dyfarnwr da yn mwynhau'r gêm gymaint â'r chwaraewyr. Mae'r gêm fodern yn stopio yn llawer rhy aml yn fy marn i a phob tro y mae gem yn stopio, mae'n amharu ar rhythm naturiol y gêm. Ceir cega heddiw am bethau mor amlwg â thafliad. Gwendid rhai dyfarnwyr yw eu bod yn stopio'r gêm bob tro maent am gael gair gyda chwaraewr. Prin iawn yw'r gair distaw a chadarn wrth fynd heibio. Hefyd, mae llawer dyfarnwr yn amharod i chwarae'r rheol fantais. Maent yn fwy parod i ddehongli llythyren y ddedd nag ysbryd y ddeddf.

Ynglŷn â 'dissent', mae cyfrifoldeb ar bob clwb i greu awyrgylch dda ac wrth ddewis sut chwaraewyr maen nhw am eu denu i'w clybiau. Y clybiau sy'n gorfod talu'r dirwyon wedi'r cwbl.

Yn olaf, rhaid nodi rôl y wasg. Mae sawl papur newydd yn rhoi marciau i'r dyfarnwyr ac yn trefnu cynghrair. Does dim o'i le yn hynny ond pwy sy'n rhoi'r marciau? Pan fyddwn i'n dyfarnu byddai dipyn o wahaniaeth yn aml rhwng y marciau a roddai'r ddau dîm i mi. Byddai canlyniad y gêm yn aml yn ffactor yn y marciau.

Yr elfen dristaf o'r ddadl yw bod pobl yn mynd i wrthod dyfarnu yn y diwedd. Mae'n rhaid cael dyfarnwr ymhob gêm. O wyllo gemau ieuenctid, ni welaf y broblem yn cael ei datrys yn y blynyddoedd sydd yn dod. Yn barod, ceir awyrgylch afiach ac aflednais yn aml ar y maes am nad oes dyfarnwr profiadol ar gael. Yr hyn a heuir yw hyn a fedir.

Oes mae dyfarnwyr gwan yn yr un modd ag y mae llu o chwaraewyr gwael. Y tro nesaf y byddwch chi — y chwaraewyr neu wylwyr — yn gweiddi ar ddyfarnwr, gofynnwch i chi eich hun, ydw i yn ddigon o foi (neu ferch!) i wneud y swydd yma am dâl pitw. Pan gaiff y dyfarnwr gêm dda, dywedwch hynny wrtho yn hytrach na'i gymryd yn ganiataol. Mae gair o ganmoliaeth yn mynd yn bell iawn!

ailsefydlu canolfan snwcer yn y pentref. Roedd galwad gref i brynu byrddau er cof am y rhai o'r ardal a gollwyd mewn rhyfeloedd. Fe wnaed apêl at Bwyllgor Carnifal y pentref, a bu'r pwyllgor hwnnw yn hael iawn trwy gyfrannu oddeutu £10,000 — arian mawr yn 1983. Cysylltwyd â

chwmni Clares (Lerpwl) a phrynwyd dau fwrdd a'u gosod yn Y Ganolfan. Wedi hynny sefydlwyd dau dîm — y Gleision a'r Duon — i gystadlu yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch.

Fel mae'n hysbys bu cryn drafod yn ardal Llanberis ynghylch adnoddau ar gyfer yr ieuenctid. Gwelwyd y Clwb Snwcer yn un ffordd o ddarparu ar eu cyfe. Erbyn hyn mae'r Ganolfan yn agored bob nos — mewn gwirionedd o hanner dydd tan 10 yr hwyr. Mae'n agored i unrhyw un, ar wahân i nos Fawrth sydd wedi ei chyfyngu i'r rhai sy'n chwarae i'r timau, ac fel arfer bydd gêm gynghrair y noson honno. Yn y prynhawn mae cyfle i'r pensiynwyr a'r ieuenctid di-waith chwarae, ac mae'n gwbl agored gyda'r nos. Mae'n braf cofnodi bod pawb sy'n defnyddio'r ystafell snwcer yn parhau'r adnoddau a'r ddarpariaeth. Bwriedir gosod llechfaen ar fur y Ganolfan yn y dyfodol agos i nodi mai er cof am y rhai a gollwyd y rhoddwyd y byrddau presennol. Pob lwc i'r chwaraewyr.

